PROFIADAU NIWEIDIOL MEWN PLENTYNDOD
ADVERSE CHILDHOOD EXPERIENCES

# Adolygiad o Torri Tir Newydd

Awduron: Joanne C. Hopkins, Amira Assami



**Awduron:** Joanne C. Hopkins

Amira Assami

**Diolchiadau**

Hoffem ddiolch i Iechyd Cyhoeddus Cymru am ariannu'r adroddiad hwn a swyddogion Llywodraeth Cymru a'r Swyddfa Gartref am eu cyfraniadau i'r gwerthusiad hwn, ynghyd â gwybodaeth ac adnoddau. Hoffem hefyd ddiolch i'r grŵp goruchwylio Yasmin Khan (Cynghorydd Cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin yn y Cartref a Thrais Rhywiol), Shyam Vining (Llywodraeth Cymru), Anne Hubbard (Partneriaeth Mewnfudo Strategol Cymru) a Lara Snowdon (Uned Atal Trais Cymru) am gymorth ac arweiniad.

Hoffem hefyd estyn diolch arbennig i Heddwen Daniel a Chymorth i Fenywod Cymru am eu cyfraniadau, ac ar gyfer hwyluso mynediad at brofiadau goroeswyr a sicrhau bod eu llais yn cael ei gynnwys yn y gwerthusiad hwn trwy ddarparu astudiaethau achos.

Cynhyrchwyd yr adroddiad gan y Ganolfan Cymorth Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod Cymru gydag arian gan Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Canolfan Cymorth Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACE) Cymru: Sefydlwyd Canolfan Cymorth ACE Cymru yn 2017 i gefnogi gweithwyr proffesiynol, sefydliadau a'r gymuned i helpu i greu Cymru sy'n ymwybodol o ACE. Eu cenhadaeth yw taclo, lliniaru ac atal ACE trwy rannu syniadau a dysgu, a herio a newid ffyrdd o weithio, fel y gallwn gyda'n gilydd dorri cylch ACE. Ariennir Canolfan Cymorth ACE gan Lywodraeth Cymru ac mae'n gweithio'n agos ag arweinwyr ar draws sefydliadau cyhoeddus a'r trydydd sector i ddatblygu a darparu'r agenda ACE, gan gynnwys cyfiawnder ieuenctid, tai, awdurdodau lleol, cyrff iechyd, addysg a chwaraeon, yn ogystal â'r gymuned leol. Cynhelir Canolfan Cymorth ACE gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ac mae'n rhan o Ganolfan Gydweithredu Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r Ganolfan Cymorth ACE

Cyfeiriad: Llawr 5, 2 Capital Quarter, Stryd Tyndall, Caerdydd, CF10 4BZ

E-bost: ACE@wales.nhs.uk

Gwefan www.aceawarewales.com

ISBN: 978-1-78986-154-397

© 2021 Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Gellir atgynhyrchu'r deunydd a gynhwysir yn y ddogfen hon o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored (OGL) www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/ ar yr amod y caiff ei wneud yn gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Cydnabyddiaeth i'w nodi i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru. Oni noder fel arall, mae'r hawlfraint yn y trefniant teipograffyddol, y dyluniad a'r cynllun yn perthyn i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

# Cynnwys


Crynodeb Gweithredol ........ 2

Cyflwyniad ........ 4

Amcanion ........ 5

Dulliau ........ 6

Torri Tir Newydd ........ 7

Beth sydd wedi Newid er 2013? ........ 8

- Persbectif Byd-eang ........ 8
- Cynnydd Llywodraeth y DU a Chymru ........ 9
- Strategaeth VAWG Llywodraeth y DU (2016-2020) ........ 10
- Deddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin yn y Cartref a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015........ 10
- Cynllun Cenedl Noddfa 2019 ........ 12
- Ymchwil Ehangach ........ 13
- Data a Chyffredinrwydd ........ 14

Archwilio Effaith Covid-19 ar VAWDASV mewn Cymunedau sy'n Fewnfudwyr, Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches ........ 16

- COVID-19 DU a Chymru ........ 16
- Cyllid y Swyddfa Gartref i gefnogi Menywod sy'n Ffoaduriaid yn ystod Covid-19........ 20

Cynnydd yn Erbyn Argymhellion ........ 21

Canfyddiadau ........ 37

Casgliad ........ 38

Cyfeiriadau ........ 39

# Crynodeb Gweithredol

## Cefndir

Yn 2013, comisiynodd Partneriaeth Mewnfudo Strategol Cymru (WSMP), gyda chyllid gan y Swyddfa Gartref a chefnogaeth gan Lywodraeth Cymru, ymchwil i drais yn erbyn menywod a merched sy'n fewnfudwyr, yn ffoaduriaid ac yn geiswyr lloches yng Nghymru. Cynhaliwyd yr ymchwil gan Anne Hubbard, Cyfarwyddwr y WSMP, a Dr Joanne Payton a Dr Amanda Robinson o Brifysgol Caerdydd. Nod yr ymchwil hon oedd edrych yn fanylach ar y ffaith bod y WSMP wedi nodi trais ar sail rhyw fel mater difrifol i fenywod a merched mewn cymunedau sy'n ceisio lloches, ffoaduriaid a mewnfudwyr, a gymhlethwyd oherwydd rhwystrau i gael mynediad at gefnogaeth ac amddiffyniad.

Er 2013 bu rhai datblygiadau sylweddol mewn polisi a deddfwriaeth gan Lywodraethau'r DU a Chymru. Mae deddfwriaeth bellach ar waith ar gyfer Cymru a Lloegr gan gynnwys troseddau penodol o stelcio, priodas dan orfod, methu ag amddiffyn rhag Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod (FGM) a cham-drin delweddau personol, yn ogystal â'r drosedd cam-drin yn y cartref i ddal ymddygiad gorfodi neu reoli mewn perthynas agos neu deuluol. Yn 2015 cyflwynwyd y Ddeddf Caethwasiaeth Fodern nodedig, ynghyd â Gorchmynion Diogelu FGM a dyletswydd adrodd orfodol FGM. Yng Nghymru, gwelsom hefyd gyflwyno Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin yn y Cartref a Thrais Rhywiol (Cymru) yn 2015 (VAWDASV). Mae chwiliad o wefan legislation.gov.uk yn canfod 23 canlyniad o ddeddfwriaeth sylfaenol ac eilaidd y DU yn ymwneud â thrais yn y cartref o 2013.

Y gobaith yw y bydd yr adolygiad hwn o'r argymhellion yn 2021 yn gallu darparu diweddariad ar argymhellion yr adroddiad gwreiddiol; ond hefyd myfyrio ar y cynnydd a wnaed yng ngoleuni profiad y pandemig COVID-19.

## Dulliau

Mabwysiadwyd dull dulliau cymysg o gasglu data gan gynnwys casglu data meintiol eilaidd, cyfweliadau lled-strwythuredig gyda gweithwyr proffesiynol, ac adolygiad o lenyddiaeth a dogfennau polisi. Ni chynhwyswyd casglu data meintiol fel rhan o'r adolygiad, ond mae wedi ystyried data a gasglwyd fel mater o drefn gan Uned Atal Trais Cymru ar lefelau trais yng Nghymru, Llywodraeth Cymru ac asiantaethau statudol a gwirfoddol ehangach.

Cynhaliwyd cyfweliadau lled-strwythuredig gyda gweithwyr proffesiynol a'r rheini sy'n gweithio gyda menywod sy'n fewnfudwyr, ffoaduriaid neu geiswyr lloches trwy wasanaethau aelodau Cymorth i Fenywod Cymru. Roedd y rhain yn wirfoddol a gyda chaniatâd. Gwahoddwyd y Swyddfa Gartref, Llywodraeth Cymru, y pedwar heddlu, awdurdodau lleol, Cymorth i Fenywod Cymru a'r holl asiantaethau eraill y rhoddwyd argymhellion penodol iddynt yn adroddiad 2013 i roi'r diweddaraf ar y cynnydd mewn cyfarfodydd gyda'r ymchwilwyr, a thrwy gyfrwng ysgrifenedig. Ar ddechrau'r astudiaeth, y gobaith oedd y byddai cyfle i gyfweld menywod a merched sy'n fewnfudwyr, ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn uniongyrchol am eu profiadau o gael mynediad at wasanaethau yn ystod COVID-19. Yn anffodus ar adeg cynnal yr ymchwil, gosodwyd cyfyngiadau cenedlaethol ac nid oedd trafodaethau wyneb yn wyneb yn gallu digwydd.

## Canfyddiadau

Gwnaed cynnydd sylweddol mewn rhai meysydd, gyda chyflwyniad deddfwriaeth a pholisi. Ond mae yna feysydd o hyd a allai fod angen gwaith ac ymchwil pellach. Mae'r rhain wedi'u nodi naill ai gan ddiffyg ymateb neu wybodaeth, neu o ganlyniad i'r broses werthuso.

a. **Dim Hawl i Arian Cyhoeddus (NRPF).** Nododd argymhellion gwreiddiol adroddiad 2013 argymhellion ar gyfer Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ar NRPF, ac eto mae'n ymddangos bod hyn yn dal i ddisgyn trwy'r bwlch o gyfrifoldeb datganoledig/heb ei ddatganoli. Mae Llywodraeth

Cymru yn nodi'n glir mai cyfrifoldeb y Swyddfa Gartref yw hyn. Er bod hyn yn wir am fewnfudo, o ran gwasanaethau cymorth, gallai Llywodraeth Cymru sicrhau bod cyllid ar gael i'r rheini â NRPF pe bai'n dewis gwneud hynny. Mae gwaith a wnaed gan Bartneriaeth Mewnfudo Strategol Cymru fel yr argymhellir yn dal i ddangos ein bod yn aneglur ynghylch y data, faint o bobl sydd â NRPF ac mae tystiolaeth gan Gymorth i Fenywod Cymru yn dangos bod cael mynediad i unrhyw lety neu gefnogaeth yn anodd dros ben i fenywod yn y sefyllfa hon. Roedd y cwestiwn o gyllid ar gyfer darpariaeth ffoaduriaid i fenywod a merched yn fater mor fawr yn 2013 ag y mae yn 2021, gyda'r astudiaethau achos yn dangos yr heriau y mae staff llinell gymorth yn eu hwynebu wrth sicrhau lleoedd.

b. **Data.** Rydym yn deall cyffredinrwydd byd-eang trais, ond llai am gyffredinrwydd trais yn ein cymunedau. Mae angen mwy o waith i ddatblygu systemau gwybodaeth, gwyliadwriaeth a rhannu data a all nodi a dadansoddi data ansoddol a meintiol er mwyn sicrhau nad yw profiadau cymunedau amrywiol ac ymylol yn cael eu heithrio. Mae hyn yn golygu, lle mae gennym y data ar droseddau a gofnodwyd gan yr heddlu, ac atgyfeiriadau llinell gymorth y dylem geisio deall lle bo hynny'n bosibl sut y gallem nodi lle mae cymunedau penodol wedi cael eu heffeithio. Efallai y bydd hyn yn gofyn am ddefnyddio dulliau cipio data meddalach o ymgysylltu â'r cymunedau eu hunain ac adroddiadau mwy penodol gan asiantaethau arbenigol sy'n gweithio gyda'r cymunedau hyn yng Nghymru.

c. **Cynnwys pob asiantaeth.** Roedd rhai asiantaethau yn ei chael hi'n anodd rhoi diweddariad ar eu hargymhellion. Mae angen mwy o waith i ddeall pa gynnydd a wnaed ym maes plismona yng Nghymru a'r gwasanaethau cymdeithasol yn benodol gan nad oedd y gwerthusiad hwn yn gallu adrodd ar y meysydd hyn.

d. **Anweledigrwydd menywod a merched sy'n fewnfudwyr** gan gynnwys y rheini o'r gymuned Teithwyr Sipsiwn Roma, gweithwyr sy'n fewnfudwyr a thymhorol, myfyrwyr ac eraill ar fisâu dros dro. Ychydig o dystiolaeth a ganfu'r adolygiad hwn o waith sydd wedi mynd i'r afael â phrofiad penodol y grwpiau hyn yn uniongyrchol mewn perthynas â VAWDASV.

e. **Diffyg cydgysylltiad rhwng ymrwymiadau'r Cynllun Cenedl Noddfa ar VAWDASV a pholisi VAWDASV yn Llywodraeth Cymru.** Mae'r cynllun a'r strategaeth genedlaethol fel ei gilydd yn cynnwys ymrwymiadau allweddol sy'n croesi rhwng meysydd polisi ond nid yw cysylltu'r rhain, a'r VAWDASV a'r sectorau ffoaduriaid yn ymddangos yn glir mewn strwythurau llywodraethu. Mae yna hefyd ddatgysylltiad â'r gwaith cydraddoldeb ehangach a llai o welededd ar brofiad menywod hŷn, LHDTI, neu fenywod a merched anabl, cyflawnwyr, a'r profiad o droseddau casineb ac aflonyddu rhywiol sy'n gysylltiedig â hil. Mae hyn wedi arwain at adael ymrwymiadau'n mynd rhagddynt neu ddim yn cael eu dwyn ymlaen yn amlwg yn y Cynllun Cenedl Noddfa a strategaeth genedlaethol VAWDASV.

f. **Diffyg ymwybyddiaeth o ddyletswyddau Gwasanaethau Cymdeithasol o dan ddeddfwriaeth Cymru.** Fel y dangosir yn yr Astudiaeth Achos lle mae gweithiwr cymdeithasol yn dweud ei fod yn "fwy o fater DV" [Trais yn y Cartref] (ac felly nid o fewn ei gylch gwaith). Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Rhwydwaith NRPF i ddarparu hyfforddiant ar hyn, a ddaeth i ben yn ddiweddar. Ond mae'r adolygiad hwn yn canfod bod mwy o waith i'w wneud i sicrhau bod gwell dealltwriaeth o'r dyletswyddau o dan y Ddeddf, nad ydyn nhw'n cael eu crybwyll yn y diweddariad gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â gwasanaethau cymdeithasol ac awdurdodau lleol.

g. **Diffyg llywodraethu ar y cyd** o amgylch VAWDASV, Trais yn erbyn Menywod a Merched (VAWG) a mewnfudwyr, ffoaduriaid a cheiswyr lloches. Er bod y Swyddfa Gartref yn mynychu'r Tasglu Gweinidogol ar Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches, nid oes fforwm sy'n dwyn ynghyd swyddogion y ddwy lywodraeth ar y mater penodol hwn.

## Casgliad

**Mae'r adolygiad hwn wedi canfod y gwnaed rhywfaint o gynnydd gwirioneddol o ran deddfwriaeth o ran awdurdodaethau a pholisi, arweiniad a phroses llywodraethau Cymru a'r DU sydd wedi bwrw ymlaen â sawl agwedd ar y gwaith hwn. Mae'r bylchau wedi'u nodi yn y canfyddiadau, a gellir bwrw ymlaen â gwaith pellach i gau'r rhain ac adrodd yn erbyn cynnydd trwy adolygiad Strategaeth VAWDASV Genedlaethol Cymru a gynhelir yn 2021.**

# Cyflwyniad

Yn 2013, comisiynodd Partneriaeth Mewnfudo Strategol Cymru[i] (WSMP), gyda chyllid gan y Swyddfa Gartref a chefnogaeth gan Lywodraeth Cymru, ymchwil i drais yn erbyn menywod a merched sy'n fewnfudwyr, yn ffoaduriaid ac yn geiswyr lloches yng Nghymru. Cynhaliwyd yr ymchwil gan Anne Hubbard, Cyfarwyddwr y WSMP, a Dr Joanne Payton a Dr Amanda Robinson o Brifysgol Caerdydd. Nod yr ymchwil hon oedd edrych yn fanylach ar y ffaith bod y WSMP wedi nodi trais ar sail rhyw fel mater difrifol i fenywod a merched mewn cymunedau sy'n ceisio lloches, ffoaduriaid a mewnfudwyr, a gymhlethwyd oherwydd rhwystrau i gael mynediad at gefnogaeth ac amddiffyniad[1].

Yn ystod eu gwaith i ddatblygu rhwydwaith Dim Hawl i Arian Cyhoeddus (NRPF) Cymru, trwy ymgysylltu â menywod sy'n ffoaduriaid a chydweithio â phartneriaid fel Cymorth i Fenywod Cymru a BAWSO, daeth y WSMP yn fwyfwy ymwybodol bod menywod a merched â statws mewnfudo ansicr yn wynebu problemau difrifol wrth gyrchu a derbyn cefnogaeth, sy'n wahanol i rai menywod a anwyd ym Mhrydain ac sydd angen sylw a datblygu polisi i alluogi'r grŵp hwn i gael mynediad at wasanaethau. Nod yr adroddiad oedd dangos y gall statws mewnfudo ansicr hefyd beri neu wneud menywod *yn fwy agored i niwed* i fathau o drais, niwed a chamfanteisio. Bwriad yr ymchwil oedd llenwi bwlch tystiolaeth yng Nghymru, a nodi materion o fewn rhai cymunedau sy'n fewnfudwyr i lywio polisi Cymru[1].

Cyhoeddwyd yr adroddiad yn 2013, a chynhaliwyd adolygiad anffurfiol o gynnydd yn erbyn argymhellion yn 2015, gan ddefnyddio trefniadau llywodraethu'r WSMP, ond ni chyhoeddwyd diweddariad ffurfiol. Mae'r adroddiad wedi aros fel un o'r unig astudiaethau yn y DU ar brofiad menywod sy'n fewnfudwyr, ffoaduriaid a cheiswyr lloches, y cyfeirir ato mewn cyhoeddiadau nodedig gan gynnwys gwaith Hibo Wadere yn ei llyfr 'Cut' sy'n disgrifio ei chyfrif personol o Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod[2].

Yn ystod 2015, roedd yr adroddiad yn rhan o waith y Swyddfa Gartref mewn Cynllun Gweithredu Rhyw Lloches. Gwnaed yr ymrwymiad hwn trwy'r Fforwm Rhanddeiliaid Ceiswyr Lloches Cenedlaethol, a chynhwyswyd argymhellion o'r adroddiad hwn mewn nifer o'r camau gweithredu a gellir eu gweld yn ddiweddarach yn cael eu hymgorffori yn y canllawiau ar gyfer gweithwyr achos Lloches 'Gender in the Asylum System', a gyhoeddwyd yn 2018[ii]. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru hefyd eu cynllun Cenedl Noddfa yn 2019, sy'n cynnwys argymhelliad i ailedrych ar adroddiad Torri Tir Newydd i ddarganfod y camau y gallai'r llywodraeth eu cymryd yn ystod 2019. Nid yw'n glir a gynhaliwyd unrhyw adolygiad o'r fath[iii].

Y gobaith yw y bydd yr adolygiad hwn o'r argymhellion yn 2021 yn gallu darparu diweddariad ar argymhellion yr adroddiad gwreiddiol; ond hefyd myfyrio ar y cynnydd a wnaed yng ngoleuni profiad y pandemig COVID-19. Nododd Cymorth i Fenywod Cymru nifer o feysydd pwysig sy'n berthnasol i'r ddealltwriaeth o brofiad menywod a merched sy'n fewnfudwyr, yn ffoaduriaid ac yn geiswyr lloches ar hyn o bryd. Mae'r rhain yn cynnwys mwy o alwadau i'r Llinell Gymorth a gwefan Byw Heb Ofn yn ystod y cyfnod clo cyntaf yng Nghymru[iv], a thystiolaeth i ddangos cymhlethdod cynyddol o alwadau, oedd yn aml yn cymryd mwy o amser, a cham-drin mwy mynych. Nodwyd hefyd bod gwasanaethau sy'n ceisio ymgysylltu â chymunedau Du a Lleiafrifoedd Ethnig (BME), yn wynebu mater aml-haenog gyda chyfathrebu a chysylltiad, lle cafodd lleoedd ar gyfer cyswllt wyneb yn wyneb eu dileu ac roedd chyswllt digidol a ffôn yn teimlo'n aneffeithiol, yn enwedig gyda rhwystr iaith. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn ceisio adlewyrchu'r hyn y mae hyn wedi'i olygu i fenywod mewn cymunedau sy'n fwy dibynnol ar y cyswllt wyneb yn wyneb hwnnw, ac ymdrin ag ansicrwydd ac ofn ynghylch statws mewnfudo, ac yn arbennig y rhai sydd â NRPF[3].

Swyddogaeth heb ei datganoli yw mewnfudo a chyfrifoldeb Llywodraeth y DU ydyw, gan gynnwys polisi lloches, sy'n cynnwys gwneud penderfyniadau am geisiadau lloches, darparu cefnogaeth a llety i geiswyr

i Am ragor o wybodaeth, ewch i https://www.wlga.wales/wales-strategic-migration-partnership

ii Gweler https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/699703/gender-issues-in-the-asylum-claim-v3.pdf

iii Am Gynllun Cenedl Noddfa Llywodraeth Cymru gweler https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-03/nation-of-sanctuary-refugee-and-asylum-seeker-plan_0.pdf

iv I gael gwybodaeth am Gymorth i Fenywod Cymru a'r Llinell Gymorth Byw Heb Ofn gweler https://www.welshwomensaid.org.uk/

lloches, a gweithredu cynlluniau ailsefydlu ffoaduriaid. Fodd bynnag, fel y mae Cynllun Cenedl Noddfa Llywodraeth Cymru yn cydnabod, mae gan Lywodraeth Cymru gyfrifoldeb i gefnogi mewnfudwyr, ffoaduriaid a cheiswyr lloches fel aelodau o gymdeithas Cymru, a'r gwasanaethau y mae angen iddynt eu cyrchu. Hefyd, cyflwynodd Llywodraeth Cymru ei deddfwriaeth ei hun ar ffurf y Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin yn y Cartref a Thrais Rhywiol (VAWDASV) yn 2015, ac wrth gomisiynu canllawiau a gyhoeddwyd yn 2019, mae'n glir ynghylch ystyried anghenion, materion a rhwystrau'r rhai a ddiogelir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (ac mae'n rhestru'n benodol mewnfudwyr, ffoaduriaid a cheiswyr lloches)[4]. Y gobaith yw y bydd y gwerthusiad hwn hefyd yn helpu i gefnogi'r adolygiad o Strategaeth VAWDASV, ac yn sicrhau bod anghenion menywod a merched yn cael eu cydnabod a'u cefnogi'n llawn o fewn y maes polisi hwnnw wrth symud ymlaen a gan fod y DU bellach wedi gadael yr Undeb Ewropeaidd, ar adeg ansicr ac ansefydlog iawn i bobl sy'n fewnfudwyr.

# Amcanion

Amcanion yr adolygiad oedd:

1. Deall maint y niwed y mae menywod sy'n fewnfudwyr, ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn ei ddioddef yng Nghymru, gan dynnu sylw at eu gwendidau penodol mewn perthynas â thrais ac effaith y pandemig presennol, gan gynnwys ar iechyd meddwl a llesiant.

2. Adolygu cynnydd yn erbyn argymhellion adroddiad 2013, i dynnu sylw at ble mae cynnydd wedi'i wneud.

3. Nodi meysydd lle mae angen gweithredu o hyd, ac unrhyw argymhellion newydd o ganlyniad i ddeall profiad y menywod hyn yn ystod y pandemig, a'n gwybodaeth gynyddol am effaith anghymesur COVID-19 ar BME, a phobl o gymunedau mwy difreintiedig yn Cymru.

4. Llywio'r cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r pryderon hyn i Gymru fel rhan o ymateb Llywodraeth Cymru i COVID-19 ac ymrwymiadau 'Cynllun Cenedl Noddfa', gan gynnwys cysylltiadau penodol â ffactorau gwaethygol tlodi, gwahaniaethu, stigma o amgylch iechyd meddwl.

5. Llywio ymyrraeth a chamau ataliol gyda'r nod o leihau nifer yr achosion ac effaith trais ar gyfer rhai o'r rhai mwyaf agored i niwed o ail a thrydedd don bosibl o fesurau cyfnod clo trwy:
    a. Ystyried 'yr hyn sy'n gweithio' wrth gefnogi menywod a merched pan fydd angen lliniaru effeithiau'r trais y maent wedi'i brofi;
    b. Llywio atal a chymorth cynnar i gymunedau sy'n llai tebygol o gael gafael ar gymorth prif ffrwd neu wasanaethau digidol/ar-lein ac sy'n dibynnu ar ymatebion a arweinir gan y gymuned
    c. Llywio argymhellion polisi i is-grŵp VAWDASV Llywodraeth Cymru ar blant a phobl ifanc, a'r Grŵp Arweinyddiaeth Cam-drin ar Sail Anrhydedd mewn perthynas ag Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod, Priodas dan Orfod a Thrais ar sail Anrhydedd fel y'i gelwir.
    d. Darparu argymhellion polisi i gefnogi ymatebion ehangach y llywodraeth ac asiantaethau i ddiogelu plant ac oedolion yn y pandemig, penderfyniadau comisiynu ac ariannu ar gyfer gwasanaethau arbenigol yng Nghymru, a galluogi rhoi cynlluniau adfer cadarn ar waith.

# Dulliau

Mabwysiadwyd dull dulliau cymysg o gasglu data gan gynnwys casglu data meintiol eilaidd, cyfweliadau lled-strwythuredig gyda gweithwyr proffesiynol, ac adolygiad o lenyddiaeth a dogfennau polisi. Ni chynhwyswyd casglu data meintiol fel rhan o'r adolygiad, ond mae wedi ystyried data a gasglwyd fel mater o drefn gan Uned Atal Trais Cymru ar lefelau trais yng Nghymru, Llywodraeth Cymru ac asiantaethau statudol a gwirfoddol ehangach.

Cynhaliwyd cyfweliadau lled-strwythuredig gyda gweithwyr proffesiynol a'r rheini sy'n gweithio gyda menywod sy'n fewnfudwyr, ffoaduriaid neu geiswyr lloches trwy wasanaethau aelodau Cymorth i Fenywod Cymru. Roedd y rhain yn wirfoddol a gyda chaniatâd. Gwahoddwyd y Swyddfa Gartref, Llywodraeth Cymru, y pedwar heddlu, awdurdodau lleol, Cymorth i Fenywod Cymru a'r holl asiantaethau eraill y rhoddwyd argymhellion penodol iddynt yn adroddiad 2013 i roi'r diweddaraf ar y cynnydd mewn cyfarfodydd gyda'r ymchwilwyr, a thrwy gyfrwng ysgrifenedig. Ar ddechrau'r astudiaeth, y gobaith oedd y byddai cyfle i gyfweld menywod a merched sy'n fewnfudwyr, ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn uniongyrchol am eu profiadau o gael mynediad at wasanaethau yn ystod COVID-19. Yn anffodus ar adeg cynnal yr ymchwil, gosodwyd cyfyngiadau cenedlaethol ac nid oedd trafodaethau wyneb yn wyneb yn gallu digwydd. Barnwyd bod mynediad digidol i'r grŵp hwn hefyd yn rhy heriol, o ystyried yr angen i sicrhau caniatâd gwybodus a mynediad at gefnogaeth angenrheidiol gan gynnwys cyfieithu ar y pryd. Fodd bynnag, darparwyd astudiaethau achos a defnyddiwyd tystiolaeth eilaidd i sicrhau bod lleisiau menywod a merched eu hunain yn cael eu cynnwys.

# Torri Tir Newydd

Yn 2013, noddodd y Swyddfa Gartref a Llywodraeth Cymru ymchwil ar y cyd gan y WSMP i brofiadau trais yn erbyn menywod sy'n fewnfudwyr, ffoaduriaid a cheiswyr lloches yng Nghymru. Roedd yn astudiaeth arloesol ar y pryd ac mae'n parhau i fod yr unig ymchwil yng Nghymru i drais a brofwyd gan y grŵp hwn o fenywod a merched. Archwiliodd yr adroddiad ystod o faterion a phrofiadau gan gynnwys digwyddiadau o gam-drin yn y cartref yn y wlad gartref, sut mae hyn yn cael ei archwilio ym mhroses lloches Llywodraeth y DU gan gynnwys trawmateiddio yn ystod y cyfweliad, ynghyd â threfniadau ar gyfer tai a chymorth. Roedd yn ymdrin ag ystod o fathau penodol o drais a chamfanteisio fel masnachu mewn pobl, profiadau ceiswyr lloches LHDT, y rhai â NRPF, plant a darparu gwasanaethau arbenigol. Helpodd yr adroddiad ymchwil i lenwi bwlch tystiolaeth yng Nghymru, a nododd faterion o fewn rhai cymunedau sy'n fewnfudwyr er mwyn sicrhau nad yw'r materion penodol a chymhleth iawn hyn yn cael eu hesgeuluso ym mholisi Cymru. Roedd yn uniongyrchol berthnasol i nodau strategol y Swyddfa Gartref a Llywodraeth Cymru i ddod â thrais yn erbyn menywod i ben.

Gwnaeth 'Torri Tir Newydd' sawl argymhelliad ar gyfer ystod o bartneriaid gan gynnwys y Swyddfa Gartref; mewn perthynas â chyfweld menywod a merched sydd wedi profi trais, galw ar adolygiad o ganllawiau'r Swyddfa Gartref a hyfforddiant ar gynnal y cyfweliad lloches. Galwodd yr adroddiad hefyd ar i Lywodraeth Cymru, yng nghyd-destun ei gwaith arloesol ar gam-drin yn y cartref[v], i sicrhau bod pob menyw yng Nghymru yn rhannu'r hawl i fod yn ddiogel trwy gymryd camau i ymestyn yr amddiffyniadau y mae mwyafrif y menywod yn eu mwynhau i'r menywod a'r merched mwyaf agored i niwed yng Nghymru. Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys nifer o argymhellion ar gyfer awdurdodau lleol, iechyd, yr heddlu a gwasanaethau arbenigol. Datblygwyd cynllun gweithredu ond ni chafwyd monitro cyson o hyn ar ôl 2015 oherwydd diffyg capasiti.

v Sylwer bod hyn cyn cyflwyno Deddf VAWDASV, a defnyddiwyd cam-drin yn y cartref yn adroddiad 2013.

# Beth sydd wedi newid ers 2013?

## Persbectif Byd-eang

Yn ‘Y Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin yn y Cartref a Thrais Rhywiol - 2016 - 2021’, neu Strategaeth VAWDASV, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yng Nghymru - yn gyson â gweddill y byd - bod trais yn erbyn menywod yn torri hawliau dynol ac yn achos a chanlyniad anghydraddoldeb rhwng menywod a dynion, ac mae’n digwydd i fenywod oherwydd eu bod yn fenywod a bod menywod yn cael eu heffeithio’n anghymesur gan bob math o drais[5].

Mae Datganiad y Cenhedloedd Unedig yn diffinio trais yn erbyn menywod fel a ganlyn:

- Pob gweithred o drais ar sail rhyw sy’n arwain at, neu’n debygol o arwain at, niwed neu ddioddefaint corfforol, rhywiol, seicolegol neu economaidd i fenywod, gan gynnwys bygythiadau o weithredoedd o’r fath, gorfodaeth neu amddifadedd rhyddid mympwyol, p’un a yw’n digwydd yn gyhoeddus neu mewn bywyd preifat.

Bydd hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:


a. Trais corfforol, rhywiol a seicolegol sy’n digwydd yn y teulu, gan gynnwys curo, cam-drin plant benywaidd yn rhywiol ar yr aelwyd, trais sy’n gysylltiedig â gwaddol, treisio priodasol, Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod ac arferion traddodiadol eraill sy’n niweidiol i fenywod, trais nad yw gan gymar a thrais sy’n gysylltiedig â chamfanteisio;

b. Trais corfforol, rhywiol a seicolegol sy’n digwydd yn y gymuned gyffredinol, gan gynnwys treisio, cam-drin rhywiol, aflonyddu rhywiol a bygwth yn y gwaith, mewn sefydliadau addysgol ac mewn mannau eraill, masnachu mewn menywod a phuteindra gorfodol;

c. Trais corfforol, rhywiol a seicolegol a gyflawnir neu a gydoddefwyd gan y Wladwriaeth, lle bynnag y mae’n digwydd.


Ar lefelau byd-eang, Ewropeaidd a chenedlaethol, mae deddfwriaeth a pholisi yn cydnabod bod trais yn erbyn menywod, cam-drin yn y cartref a thrais rhywiol yn gweithredu fel modd o reolaeth gymdeithasol sy’n cynnal cysylltiadau pŵer anghyfartal rhwng menywod a dynion ac yn atgyfnerthu statws israddol menywod. O’r herwydd, mae VAWDASV yn aml yn cael ei ddisgrifio fel achos a chanlyniad anghydraddoldeb rhwng y rhywiau.

Mae’r gymuned ryngwladol wedi cydnabod pwysigrwydd mynd i’r afael â thrais yn erbyn menywod a merched trwy sawl confensiwn, polisi a fframwaith fel y Confensiwn ar Ddileu Pob Math o Wahaniaethu yn erbyn Menywod (CEDAW)[vi] Llwyfan Gweithredu Beijing[vii], ac Agenda 2030 ar gyfer Datblygu Cynaliadwy (2015)[viii]. Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau (CRPD) a’i Brotocol Dewisol[ix] a Chonfensiwn Istanbul ar Atal a Brwydro yn erbyn Trais yn erbyn Menywod a Merched[x].




**Ac eto er gwaethaf yr holl ymdrechion hyn, mae trais ar sail rhyw (GBV) neu VAWG yn dal i effeithio ar 1 o bob 3 merch yn ystod eu hoes.**


vi I gael mwy o wybodaeth am CEDAW https://rm.coe.int/168046031c
vii Llwyfan Gweithredu Beijing https://beijing20.unwomen.org/cy/about
viii Agenda 2030 ar gyfer Datblygu Cynaliadwy https://www.undp.org/content/undp/en/home/2030-agenda-for-sustainable-development.html
ix Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau (CRPD) a’i Brotocol Dewisol https://www.un.org/development/desa/disabilities/convention-on-the-rights-of-persons-with-disabilities.html
x Confensiwn Istanbul: https://www.coe.int/en/web/istanbul-convention/home




Mae **35% o fenywod ledled y byd** wedi profi naill ai trais corfforol a/neu rywiol gan gymar agos neu drais rhywiol gan rywun nad yw'n bartner iddynt[5].




Yn fyd-eang, mae rhywun heblaw partner wedi ymosod yn rhywiol ar **7% o fenywod**[5].




Yn fyd-eang, mae **38% o lofruddiaethau menywod** yn cael eu cyflawni gan bartner agos[5].

Mae **200 miliwn o fenywod** wedi profi anffurfio/torri organau cenhedlu menywod[6].




At hynny, amcangyfrifir bod **40.3 miliwn o bobl yn cael eu caethiwo** lle mae **71% yn fenywod**[7].

Mae'r mater hwn nid yn unig yn ddinistriol i oroeswyr trais a'u teuluoedd, ond mae hefyd yn golygu costau cymdeithasol ac economaidd sylweddol. Mewn rhai gwledydd, amcangyfrifir bod VAWG yn costio hyd at 3.7% o'u CMC i wledydd, sy'n fwy na dwbl yr hyn y mae'r rhan fwyaf o lywodraethau'n ei wario ar addysg. Ar y cyfan, yn y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2017, amcangyfrifir bod cam-drin yn y cartref wedi costio dros £66 biliwn yng Nghymru a Lloegr yn ôl adroddiad gan y Swyddfa Gartref[8]. Mae'r costau'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ac maent yn cynnwys costau cyfreithiol. Fodd bynnag, nid ydynt yn cynnwys y gost i'r dioddefwyr o ran potensial nas cyflawnwyd a'r effaith ar eu llesiant corfforol, emosiynol a meddyliol hirdymor.

O arwyddo a chadarnhau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Ddileu Pob Math o Wahaniaethu yn erbyn Menywod (CEDAW) a chytuniadau rhyngwladol eraill sy'n gyfreithiol rwymol, i bolisïau, strategaethau a deddfwriaethau a roddwyd ar waith gan Lywodraethau'r DU a Chymru, mae mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched wedi dod yn rhan o'r agenda wleidyddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac mae bellach yn flaenoriaeth allweddol i'r ddwy lywodraeth.

## Cynnydd Llywodraeth y DU a Chymru

Er 2013 bu rhai datblygiadau sylweddol mewn polisi a deddfwriaeth gan lywodraethau'r DU a Chymru. Mae deddfwriaeth bellach ar waith ar gyfer Cymru a Lloegr gan gynnwys troseddau penodol o stelcio, priodas dan orfod, methu ag amddiffyn rhag FGM a cham-drin delweddau personol, yn ogystal â'r drosedd cam-drin yn y cartref i ddal ymddygiad gorfodi neu reoli mewn perthynas agos neu deuluol. Yn 2015 cyflwynwyd y Ddeddf Caethwasiaeth Fodern nodedig, ynghyd â Gorchmynion Amddiffyn FGM a dyletswydd adrodd orfodol FGM. Yng Nghymru, gwelsom hefyd gyflwyno Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin yn y Cartref a Thrais Rhywiol (Cymru) yn 2015. Mae chwiliad o wefan legislation.gov.uk yn canfod 23 canlyniad o ddeddfwriaeth sylfaenol ac eilaidd y DU yn ymwneud â thrais yn y cartref o 2013[xi]. Mae'r Consesiwn Trais yn y Cartref Amddifad (DDVC)[xii] sef y Prosiect Sojourner gynt, yn aros yn ei le ac yn galluogi partneriaid/priod dinasyddion Prydain neu bobl â chaniatâd amhenodol i aros (ILR) a menywod ar fisâu priod i gael gafael ar arian cyhoeddus am 3 mis os ydynt yn gymwys i wneud cais am ILR o dan y Rheol Trais yn y Cartref. Mae amddifadedd yn y cyd-destun hwn yn ystyriaeth gymhleth, ac mae wedi'i nodi yng nghanllawiau llywodraeth y DU[xiii]. Ar gyfer goroeswyr masnachu mewn pobl a chaethwasiaeth fodern mae pecyn o

xi Gellir dod o hyd i'r holl ddeddfwriaeth yn www.legislation.gov.uk

xii Consesiwn DDV: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/679269/victims-of-domestic-violence-and-abuse-DDV-concession-v1_0.pdf

xiii Am ragor o wybodaeth ynghylch sut yr asesir amddifadedd gweler: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/845235/assessing-destitution-v3.0-ext.pdf

gymorth arbenigol y gellir ei gyrchu ar ôl atgyfeirio i'r Mecanwaith Cyfeirio Cenedlaethol a phenderfyniad sail rhesymol gadarnhaol wrth iddynt aros am benderfyniad sail bendant. Wedi hynny gallant wneud cais am ILR dewisol.

## Strategaeth VAWG y DU (2016-2020)

Mae Strategaeth y DU i Ddod â Thrais yn erbyn Menywod a Merched i Ben (2016-2020)[xiv] yn darparu trosolwg o'r ystod eang o gamau yr ymrwymodd y llywodraeth i'w cymryd dros gyfnod o bedair blynedd i ddod â thrais yn erbyn menywod a merched i ben. Mae'r Strategaeth yn cynnwys adran sy'n cyfeirio at ddatblygiad y Cynllun Gweithredu Rhyw o dan 'Improving the Asylum System' a oedd hefyd yn ystyried argymhellion Torri Tir Newydd 2013. Fodd bynnag, ymddengys bod y cynllun gweithredu wedi'i droi yn ganllaw i weithwyr achos ac nad yw wedi'i gyhoeddi ar ffurf lawn. Mae'r strategaeth hefyd yn canolbwyntio ar yr arferion traddodiadol niweidiol: FGM, cam-drin ar sail anrhydedd a phriodas dan orfod. Mae yna elfennau o'r strategaeth a'r arweiniad sy'n edrych ar gefnogaeth i geiswyr lloches sy'n adrodd am gam-drin yn y cartref, a'r disgwyliad o ariannu llety os yw'n briodol ac yn agos at wasanaethau cymorth arbenigol os mai dyna mae'r goroeswr ei eisiau.

Yn 2019 cyhoeddwyd adnewyddiad o'r Strategaeth nad yw'n sôn ymhellach am yr ymrwymiad i wella'r system loches na'r cynllun gweithredu ar sail rhyw. Ar hyn o bryd mae'r Swyddfa Gartref yn ymgynghori ar y strategaeth ar gyfer 2021-2024, a rhoddwyd cydsyniad brenhinol i'r Ddeddf Cam-drin yn y Cartref ar 29ain Ebrill 2021. Mae elfennau allweddol y Ddeddf yn cynnwys creu diffiniad statudol o gam-drin yn y cartref. Yn ystod ei daith trwy'r broses ddeddfwriaethol, mae'r Bil ac, erbyn hyn y Ddeddf, wedi cael ei beirniadu gan sefydliadau arbenigol sy'n gweithio gydag mewnfudwyr, ffoaduriaid, ceiswyr lloches a goroeswyr VAWG fel Imkaan, Cyngor y Ffoaduriaid a Southall Black Sisters am beidio â chynnwys gwelliannau a gyflwynwyd o amgylch mewnfudo a'r broses loches. Mae'r maes ffocws dadleuol mwyaf yn dal i fod o gwmpas amddifadedd menywod sydd wedi dioddef neu sydd mewn perygl o gael eu cam-drin a thrais a chamfanteisio; menywod sydd â NRPF.

## Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin yn y Cartref a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015

Cefnogir gwaith i roi diwedd ar drais yn erbyn menywod a merched yng Nghymru gan fframwaith confensiynau rhyngwladol ac ers blynyddoedd lawer mae'r mater cymhleth hwn wedi'i flaenoriaethu yn nhirwedd ddeddfwriaethol a pholisi Cymru. Cyflwynwyd 'Strategaeth Hawl i fod yn Ddiogel' Cymru yn 2010 a nododd raglen weithredu integredig, draws-lywodraethol i fynd i'r afael â phob math o drais yn erbyn menywod a phlant. Yn 2015 cyflwynwyd Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin yn y Cartref a Thrais Rhywiol (Cymru) ac adnewyddwyd 'Strategaeth Hawl i fod yn Ddiogel' Cymru ym mis Tachwedd 2016 a'i chyhoeddi fel Strategaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin yn y Cartref a Thrais Rhywiol (2016 - 2021). Yng Nghymru mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 hefyd yn nodi saith nod llesiant sy'n berthnasol i atal trais yn erbyn menywod, cam-drin yn y cartref a thrais rhywiol (VAWDASV) a chefnogi goroeswyr.

xiv Am ragor o wybodaeth gweler: https://www.gov.uk/government/publications/strategy-to-end-violence-against-women-and-girls-2016-to-2020

**Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin yn y Cartref a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015**

Mae'r Ddeddf yn ceisio sicrhau gwell ymateb gan y sector cyhoeddus i drais yn erbyn menywod, trais ar sail rhyw, cam-drin yn y cartref a thrais rhywiol.

Y nodau polisi allweddol wrth roi'r Ddeddf ar waith yw gwella trefniadau i

- hyrwyddo ymwybyddiaeth o, ac atal, amddiffyn a chefnogi dioddefwyr trais yn erbyn menywod, trais ar sail rhyw, cam-drin yn y cartref a thrais rhywiol;
- cryfhau arweinyddiaeth strategol ac atebolrwydd am drais yn erbyn menywod, trais ar sail rhyw, cam-drin yn y cartref a thrais rhywiol; a
- gwella cysondeb, ansawdd a chydgysylltiad y ddarpariaeth gwasanaeth yng Nghymru.

Mae Strategaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin yn y Cartref a Thrais Rhywiol (2016 - 2021) yn cydnabod pwysigrwydd ystyried effaith cymunedau BME a phwysau'r dystiolaeth sy'n nodi bod pobl sy'n uniaethu â'r grŵp hwn yn cael eu heffeithio'n anghymesur gan wahanol ffurfiau o gam-drin e.e. priodas dan orfod, trais ar sail anrhydedd fel y'i gelwir[xv], FGM, camfanteisio rhywiol ar ffurf gwaith rhyw masnachol, masnachu pobl ac ati. Mae'r gwendidau lluosog o'r cyd-destunau sy'n gorgyffwrdd hyn yn ei gwneud hi'n anoddach i fenywod ffoi rhag trais. Mae hefyd yn cydnabod y gall goroeswyr wynebu rhwystrau ychwanegol i geisio cymorth, megis gwahaniaethu ar sail hil, stereoteipio crefyddol, ofn colli anrhydedd a chael eu gwrthod gan y gymuned, a statws mewnfudo ansicr, a dim hawl i arian cyhoeddus, y gallai pob un ohonynt eu hatal rhag cael mynediad at amddiffyniad[9]. Mae ychydig neu ddim gwybodaeth am eu hawliau hefyd yn elfen allweddol o hyn.

Mae yna hefyd adran ar wahân yn y Strategaeth sy'n nodi menywod sy'n fewnfudwyr, ffoaduriaid a cheiswyr lloches ac yn tynnu sylw eto at bryder mawr darparwyr gwasanaeth sef eu gallu i gynorthwyo menywod sy'n fewnfudwyr, ffoaduriaid a cheiswyr lloches sydd wedi dioddef, neu sy'n dioddef trais yn erbyn menywod ac nad oes ganddynt hawl i arian cyhoeddus. Mae'r Strategaeth yn cydnabod y gall y grŵp hwn yn aml fod yn destun materion fel FGM, a elwir yn drais ar sail 'anrhydedd[xvi] a phriodas dan orfod, yn ogystal â'r materion sydd eisoes yn gymhleth o gam-drin domestig a thrais rhywiol. Gall materion fisa, rhwystrau diwylliannol, iaith a chyfathrebu gymhlethu ac ynysu'r menywod hyn ymhellach[9].

Yr hyn nad yw'r Strategaeth yn ei wneud yw cydnabod y natur groestoriadol rhwng y gwahanol grwpiau y mae'r dogfennau'n eu nodi a allai effeithio ar brofiad byw o drais; er enghraifft y gall menywod sy'n fewnfudwyr a ffoaduriaid a cheiswyr lloches hefyd fod yn LHDT, neu'n fenywod hŷn, neu'n fenywod anabl, neu'n blant a phobl ifanc, ac efallai y byddant yn uniaethu fel un o'r grwpiau eraill hyn yn bennaf. Gall cyflawnwyr hefyd fod o'r un cymunedau, neu'n dal i fod yn byw yn y gwledydd cartref neu wledydd tramwy. Hefyd nid yw'r rhai sydd â NRPF yn fewnfudwyr, yn ffoaduriaid neu'n geiswyr lloches yn unig; gall menywod a merched sydd wedi dod yn ddigartref hefyd fod â phrofiad VAWDASV, ond nid ydynt yn rhan o'r grŵp hwn. Darganfu adroddiad a gynhaliwyd gan y prosiect Unity yn 2019 fod "menywod, [menywod] beichiog, pobl anabl a phlant yn fwy tebygol o gael eu heffeithio gan effeithiau negyddol y sefyllfa NRPF"[10]. Mae'n ymddangos bod mamau sengl hefyd o dan yr anfantais waethaf dan NRPF; mae llawer yn methu â gweithio'n amser llawn a heb fynediad i'r system fudd-daliadau, maent yn fwy tebygol o syrthio i amddifadedd na bron unrhyw ddemograffig arall o dan NRPF. Roedd 77% o'r achosion a gymerwyd gan yr Unity Project yn famau sengl gyda phlant o dan ddeg oed, ac roedd ychydig llai na hanner (47%) yr achosion yn famau sengl gyda phlant o dan bum mlwydd oed . Nid oes cyfeiriad pellach at fewnfudwyr, ffoaduriaid na cheiswyr lloches, na mynd i'r afael â NRPF yn yr amcanion a nodir yn y strategaeth. Mae NRPF yn weithred sy'n ymddangos fel pe bai'n cyd-fynd yn fwy ag ystyriaethau ehangach Cynllun Cenedl Noddfa

xv Terminoleg a ddefnyddir yn y Strategaeth
xvi Dyfyniad uniongyrchol yw hwn. Mae'r adroddiad hwn yn cyfeirio at Gam-drin ar Sail Anrhydedd.

## Cynllun Cenedl Noddfa 2019.

Mae'r cynllun 'Cenedl Noddfa' yn amlinellu ehangder y gwaith y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud ledled Cymru i sicrhau bod yr anghydraddoldebau y mae'r cymunedau hyn yn eu profi yn cael ei lleihau, mynediad at gyfleoedd yn cynyddu, a bod cysylltiadau rhwng y cymunedau hyn a'r gymdeithas ehangach yn cael eu gwella. Mae'r cynllun yn cynnwys llawer o gamau traws-lywodraeth, gan flaenoriaethu materion allweddol a amlygwyd gan ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn ystod ei ddatblygiad ac mewn ymateb i Ymchwiliad Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau'r Cynulliad Cenedlaethol yn 2017. Mae'r cynllun yn glir bod llety ceiswyr lloches yn rhan o gyfrifoldeb Llywodraeth y DU, ac o fewn hyn y cyfrifoldeb o fynd i'r afael â materion y rhai sydd â NRPF. Mae yna adran yn y cynllun sy'n nodi camau gweithredu allweddol o amgylch VAWDASV, ond nid yw'n glir faint o gynnydd a wnaed yn erbyn yr amcanion sy'n ymwneud yn benodol â'r adroddiad Torri Tir Newydd na faint o geiswyr lloches a ffoaduriaid sydd wedi'u cynnwys yn y panel ymgysylltu goroeswyr cenedlaethol[11].

**Cynllun Cenedl Noddfa Llywodraeth Cymru**

**Cefnogi goroeswyr trais yn erbyn menywod, cam-drin yn y cartref a thrais rhywiol (VAWDASV)**

Bydd Llywodraeth Cymru yn:

- ailedrych ar argymhellion yr adroddiad 'Torri Tir Newydd: Trais yn erbyn menywod sy'n fewnfudwyr, yn ffoaduriaid ac yn geiswyr lloches yng Nghymru' i ddarganfod y camau y gallai Llywodraeth Cymru eu cymryd yn ystod 2019;
- gweithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu model cynaliadwy ar gyfer darparu cyllid i wasanaethau VAWDASV arbenigol, gan gynnwys y rhai sy'n gweithio gyda cheiswyr lloches a ffoaduriaid i sicrhau cefnogaeth ddibynadwy;
- sicrhau bod anghenion ceiswyr lloches a ffoaduriaid yn cael eu hystyried o fewn fframwaith cyfathrebu VAWDASV cenedlaethol (Thema gyffredinol ein hymgyrch yn ystod 2018-20 fydd rheolaeth a bydd yn cynnwys rhai o gymunedau amrywiol fel ffoaduriaid a cheiswyr lloches).
- ymgysylltu'n uniongyrchol â goroeswyr BME o VAWDASV, gan gynnwys ceiswyr lloches a ffoaduriaid, trwy ddatblygu Mecanweithiau Ymgysylltu Goroeswyr Cenedlaethol yn 2019;
- cyflwyno peilot yn 2019 ar gyfer panel ymgysylltu cenedlaethol i oroeswyr, a fydd yn cael ei ddatblygu yn dilyn ymgysylltu pellach â goroeswyr VAWDASV gan gynnwys BME a ffoaduriaid a cheiswyr lloches; ac
- ystyried ymhellach a yw Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol VAWDASV yn mynd i'r afael yn ddigonol ag amgylchiadau ffoaduriaid a cheiswyr lloches.

## Ymchwil Ehangach

Mae'r adroddiad Torri Tir Newydd yn parhau i fod yr unig waith penodol ar drais yn erbyn menywod a merched sy'n fewnfudwyr, yn ffoaduriaid ac yn geiswyr lloches yng Nghymru. Fodd bynnag, bu nifer o ddarnau ymchwil gan sefydliadau ledled y DU sy'n cyfrannu at ein dealltwriaeth gyfredol o brofiadau'r menywod a'r merched hyn yn y DU. Yn benodol, maent yn tynnu sylw at yr heriau parhaus o ran cael gafael ar gefnogaeth gyda NRPF. Er enghraifft, cafodd ymchwil yn 2018 gan y Cyngor Ffoaduriaid a'r Prosiect Apeliadau Cymorth Lloches (ASAP) 'Women Seeking Asylum: Safe in the UK?'[xvii] y gall menywod fod mewn perygl o gael eu cam-drin a thrais ar unrhyw gam o'r system cymorth lloches, ac mae'r canfyddiadau'n cynghori ymhellach bod menywod sydd â hawliadau lloches a wrthodwyd yn wynebu amddifadedd ac felly mewn risg uwch o gam-drin. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y system loches ac yn gwneud argymhellion ar gyfer y Swyddfa Gartref:

### Women Seeking Asylum: Safe in the UK?

Crynodeb o'r argymhellion allweddol:

1. Dylai'r Swyddfa Gartref sicrhau bod menywod sy'n ceisio lloches yn cael eu cynnwys yn gadarn yn ymdrechion traws-lywodraeth y DU i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched, a dylai unrhyw strategaeth draws-lywodraeth yn y dyfodol ar ddod â thrais yn erbyn menywod a merched i ben adlewyrchu hyn.
2. Dylai'r Swyddfa Gartref gyhoeddi polisi diwygiedig sy'n mynd i'r afael â'r trais a'r cam-drin yn y cartref a brofir gan fenywod sy'n ceisio lloches, fel blaenoriaeth, a monitro ei weithrediad. Dylai'r polisi diwygiedig ddarparu ymateb effeithiol a chyson i gam-drin yn y cartref, ar bob pwynt o'r siwrnai cymorth lloches.
3. Dylai'r Swyddfa Gartref ymgynghori ac adolygu'r holl gyfarwyddiadau polisi cymorth lloches allweddol i sicrhau bod y polisïau hyn yn ymateb yn benodol i anghenion menywod sy'n profi neu mewn perygl o bob math o gamfanteisio neu gam-drin ar sail rhyw.
4. Dylai'r Swyddfa Gartref weithio gyda darparwyr llety, gan sicrhau eu bod yn gweithredu i leihau amlygiad menywod i bob math o gam-drin a chamfanteisio ar sail rhyw ac yn teimlo'n ddiogel yn eu llety.
5. Dylai'r Swyddfa Gartref sicrhau nad oes unrhyw fenyw yn wynebu digartrefedd ac amddifadedd wrth adael y system cymorth lloches ar ôl cael statws ffoadur neu fath arall o ganiatâd i aros.
6. Dylai'r Swyddfa Gartref ddiwygio cynllun gweithredu traws-Lywodraeth cyfredol y DU i roi diwedd ar drais yn erbyn menywod a merched i gynnwys yr argymhellion uchod[12].

Cafodd ymchwil gan Refugee Women 'Will I ever be safe?'[xviii] - a siaradodd â 106 o ferched oedd yn ceisio lloches a ffoaduriaid o bob rhan o Gymru a Lloegr i glywed am eu hamddifadedd - fod menywod yn cael eu gwneud yn amddifad ar wahanol bwyntiau yn ystod eu taith lloches ond daeth y mwyafrif llethol a gymerodd ran yn yr ymchwil hon yn amddifad ar ôl i'w hawliadau lloches gael eu gwrthod[12]. Mae hyn yn gadael menywod mewn sefyllfaoedd eithriadol o agored i niwed a chamfanteisiol ac roedd tua thraean o'r menywod y buont yn siarad â nhw wedi cael eu treisio neu eu cam-drin yn rhywiol tra'u bod yn amddifad yn y DU. Roedd bron pob un o'r menywod hyn wedi cael eu treisio neu ddioddef math arall o drais rhywiol yn eu gwlad wreiddiol ac mae hyn yn dod i'r amlwg fel elfen sylweddol o brofiadau menywod o amddifadedd[12]. Mae canllawiau 2019 a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref ar gyfer gweithwyr achos lloches wedi mynd i'r afael â rhai o'r argymhellion hyn, ond mae rhai gwasanaethau aelodau Cymorth i Fenywod yng Nghymru yn awgrymu bod problemau o hyd ynghylch yr amser y mae'n ei gymryd i arian gyrraedd darparwyr lloches, gan olygu bod hyn yn ariannol yn rhwystr o hyd i'r menywod hyn rhag cael cefnogaeth.

xvii Gellir gweld yr adroddiad llawn yn https://refugeecouncil.org.uk/wp-content/uploads/2019/03/Safe_from_violence_in_the_UK._ASAP-RC_report.pdf

xviii Gellir gweld yr adroddiad llawn yn https://www.refugeewomen.co.uk/wp-content/uploads/2020/02/WRW-Will-I-ever-be-safe-web.pdf

## Data a Chyffredinrwydd

Nododd Strategaeth VAWDASV Genedlaethol Cymru 2016-2021 gyffredinrwydd VAWDASV, cyn belled ag y bo modd ar yr adeg honno. Er nad yw'n eglur ar nifer yr mewnfudwyr, ffoaduriaid a cheiswyr lloches, mae'n darparu llinell sylfaen gyffredinol i Gymru.

Mae'r materion hyn yn effeithio ar ddynion a menywod ond fel y mae'r dystiolaeth isod yn nodi, mae menywod a merched yn cael eu heffeithio'n anghymesur gan lawer o'r trais a'r cam-drin a gwmpesir gan y Ddeddf.


- Mae 1.4 miliwn o fenywod a 700,000 o ddynion 16-59 oed yn nodi eu bod wedi profi cam-drin yn y cartref yng Nghymru a Lloegr.
- Mae allosod y data hwn i Gymru, yn dangos bod 11% o ferched a 5% o ddynion y flwyddyn yn profi 'unrhyw gam-drin yn y cartref', tra bod cyfraddau 'unrhyw ymosodiad rhywiol' yn ystod y flwyddyn ddiwethaf hefyd yn uwch i fenywod (3.2%) na dynion ( 0.7%).
- Yn 2011 amcangyfrifwyd bod 137,000 o ferched a menywod yn byw gyda chanlyniadau FGM yn y DU ac yn 2011 amcangyfrifwyd bod 60,000 o ferched o dan 15 oed yn byw yn y DU a anwyd i famau o wledydd sy'n ymarfer FGM ac felly gallent fod mewn perygl o FGM. Amcangyfrifir bod 140 o ddioddefwyr FGM y flwyddyn yng Nghymru.
- Roedd 80% o'r achosion yr ymdriniodd Uned Priodas Dan Orfod Llywodraeth y DU â hwy yn ymwneud â dioddefwyr benywaidd; roedd 20% yn ymwneud â dioddefwyr gwrywaidd. Amcangyfrifir bod hyd at 100 yn dioddef priodas dan orfod y flwyddyn yng Nghymru[13].

Mae data ar gyffredinrwydd ymysg menywod a merched sy'n fewnfudwyr, ffoaduriaid a cheiswyr lloches, yn brin ar hyn o bryd. O ystyried bod llawer wedi ffoi rhag gwrthdaro, trychineb ddyngarol, wedi treulio amser mewn gwersylloedd ffoaduriaid neu wedi talu smyglwyr neu wedi cael eu masnachu i'r DU, mae rhagdybiaethau y gellir eu gwneud o'r ffigurau byd-eang ynghylch y tebygolrwydd eu bod wedi profi trais a cham-drin naill ai yn eu mamwlad, ar y daith i'r DU, a bydd canran hefyd yn parhau i brofi camdriniaeth yn y DU. Mae casglu data penodol ar y maes hwn yn gyfyngedig, yn enwedig gan y gallai gofyn am statws mewnfudo fod yn rhwystr i fenywod a merched rhag cael gafael ar y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt.


Mae llywodraeth y DU yn cyhoeddi ystadegau sy'n rhoi rhywfaint o wybodaeth am niferoedd y bobl o fewn y system, ac mewn data nas cyhoeddwyd, ffigurau daearyddol. Mae'r Uned Data Llywodraeth Leol a'r Porth Mewnfudo yn dal i ddarparu siop un stop ar gyfer data dwyieithog yng Nghymru gyda sylw penodol i ddata mewnfudo ochr yn ochr â data cyd-destunol. Nid yw statws mewnfudo yn cael ei gofnodi fel mater o drefn, ond gellir dadansoddi data mewnfudo â data a gesglir yn rheolaidd gan nifer o wasanaethau'r sector cyhoeddus, megis iechyd a gofal cymdeithasol neu awdurdodau lleol. Ar hyn o bryd, o ganlyniad i COVID 19 a'r angen i sicrhau nad yw pobl yn cael eu rhwystro rhag cyrchu gwasanaethau iechyd a brechiadau ac i ystyried pryderon ynghylch rhannu data a'u statws mewnfudo, ni ellir gofyn i bobl am y wybodaeth hon na'i gwneud yn ofynnol i'w rhoi yng Nghymru.

Yr hyn sy'n amlwg yw bod angen deall yn well, triongli data ansoddol a meintiol, ac edrych ar draws ffynonellau data a rhannu cytundebau i weld beth sy'n bosibl. Mae gwasanaethau arbenigol fel BAWSO yn darparu data ar y bobl y maent yn darparu gwasanaethau iddynt, ond dim ond y rhai sy'n hysbys iddynt yw'r rheiny. Mae data BAWSO o eleni yn rhoi ymdeimlad o ble mae atgyfeiriadau at eu gwasanaethau yn dod (yr heddlu neu hunan-atgyfeiriadau yn bennaf) a pha gymunedau sy'n cyrchu eu gwasanaethau fwyaf: Affricanaidd 12% a Gwyn Prydeinig 11%, heb eu datgelu yn 11%. Mae'r holl ganrannau eraill yn llai na 10%.

## Ethnigrwydd holl Ddefnyddwyr Gwasanaeth Cymru 2019-2020




## Ffynonellau atgyfeiriadau




Bawso
Providing specialist services for BME communities

Addaswyd o: BAWSO https://twitter.com/BAWSO/status/1355216416815853570

# Archwilio Effaith Covid-19 ar VAWDASV mewn Cymunedau sy'n Fewnfudwyr, Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches

Mae'r byd yn delio â dau bandemig byd-eang, Coronafeirws COVID-19 fel y datganwyd gan Gyfarwyddwr Cyffredinol Sefydliad Iechyd y Byd ar 11 Mawrth 2020[14] a thrais yn erbyn menywod a merched a ddatganwyd gan Sefydliad Iechyd y Byd yn 2013[15]. Mae COVID-19 wedi cael effaith ddinistriol ledled y byd gan amharu ar systemau cymdeithasol, datgymalu strwythurau economaidd a chreu argyfwng gwleidyddol wrth i lywodraethau frwydro i ymateb. Wrth i'r pandemig ddwysáu, mae'r niwed y mae miliynau o fenywod a phlant yn ei wynebu wrth brofi cam-drin yn y cartref, trais rhywiol, priodas dan orfod, cam-drin 'ar sail anrhydedd', cam-drin plant yn rhywiol, FGM a mathau eraill o VAWG yn cynyddu[15].

Er enghraifft, cynghorodd data sy'n dod i'r amlwg o Ffrainc fod achosion o drais yn y cartref wedi cynyddu 30% ers dechrau'r cyfnod clo ym mis Mawrth[16]. Mae Llinellau Cymorth yng Nghyprus a Singapore wedi cofrestru cynnydd mewn galwadau o 30% a 33%, yn y drefn honno[17]. Yn yr Ariannin, mae galwadau brys am achosion trais yn y cartref wedi cynyddu 25% ers i'r cyfnod clo ddechrau. Yng Nghanada, yr Almaen, Sbaen, y Deyrnas Unedig, a'r Unol Daleithiau, mae awdurdodau'r llywodraeth, gweithredwyr hawliau menywod a phartneriaid cymdeithas sifil wedi nodi adroddiadau cynyddol o drais yn y cartref yn ystod yr argyfwng, a chynnydd yn y galw am lety brys[17].

## COVID-19 DU a Chymru

Er y gallai mesurau rheoli COVID-19 a gyflwynwyd gan y DU, megis cyfnodau clo, cau ysgolion a sianelu adnoddau tuag at ddarparu gwasanaethau brys, fod yn hanfodol i achub bywydau, gallant hefyd waethygu trais yn erbyn menywod a merched yn anfwriadol. Mae cau ysgolion a chanolfannau gofal dydd, a diffyg llety lloches, wedi arwain at lawer o ddioddefwyr yn gorfod dychwelyd at bartneriaid camdriniol a/neu aelodau o'r teulu. Mae Llinell Genedlaethol Cam-drin yn y Cartref y DU[xix] wedi gweld cynnydd o 25% mewn ceisiadau a galwadau ar-lein ers dechrau'r cyfnod clo[18]. Roedd marwolaethau o gam-drin yn y cartref rhwng 23ain Mawrth a 12fed Ebrill wedi mwy na dyblu i 16 marwolaeth, gan gynnwys marwolaethau plant, o gymharu â'r gyfradd gyfartalog yn y 10 mlynedd flaenorol[19].

Mae Uned Atal Trais Cymru wedi darparu adroddiadau monitro trwy gydol y pandemig, i ddeall tueddiadau mewn digwyddiadau o drais yr adroddir amdanynt i'r heddlu, neu o ddata a gasglwyd o wasanaethau eraill gan gynnwys y Llinell Gymorth Byw Heb Ofn yng Nghymru. Ym mis Ionawr 2021, adroddodd fod troseddau a gofnodwyd yn gyffredinol gan yr heddlu yng Nghymru wedi lleihau yn ystod y pandemig COVID-19 o'i gymharu â'r un cyfnod y flwyddyn flaenorol. Roedd yr holl linellau cymorth sy'n derbyn data ar gyfer yr adroddiad wedi gweld cynnydd sylweddol mewn cysylltiadau, gyda'r Llinell Gymorth Byw Heb Ofn yn nodi cynnydd o 41% yn gyffredinol ers mis Mawrth 2020. Er nad yw'r adroddiadau'n gallu nodi faint o'r galwadau hyn sy'n dod gan fenywod a merched sy'n mewnfudwyr, yn ffoaduriaid neu'n geiswyr lloches, oherwydd diffyg cofnodi'r wybodaeth hon yn rheolaidd, mae gan adroddiad mis Ionawr ddata ynghylch galwadau i linell gymorth Karma Nirvana (elusen sy'n cefnogi dioddefwyr camdriniaeth ar sail anrhydedd a phriodas dan orfod) a nododd 32 achos o Gymru ar gyfer 2019/20, yr atgyfeiriwyd 72% ohonynt gan asiantaeth broffesiynol fel yr Heddlu, lloches neu'r gwasanaethau cymdeithasol. Yn ystod cyfnod o 6 mis rhwng Mawrth a Medi 2020 mae'r llinell gymorth wedi gweld 14 achos yn cael eu hatgyfeirio o Gymru. Mae hunanatgyfeirio gan ddioddefwyr wedi cynyddu ac mae'n cynrychioli 42% o'r holl achosion, o'i gymharu â 25% yn 2019/20. Adlewyrchir hyn ledled y DU nid yn unig yng Nghymru[20].

xix Lloegr yn unig yw'r data hyn

Mae ymddangosiad y pandemig COVID-19 wedi cael effaith ar boblogaethau ledled y byd, ond nid yw pob poblogaeth yn cael eu heffeithio'n gyfartal. Mae anghydraddoldebau iechyd ac economaidd-gymdeithasol sy'n bodoli eisoes yn llunio pa mor agored i niwed yw pobl i'r afiechyd, gan waethygu strwythurau cymdeithasol anghyfartal wrth iddynt bennu canlyniadau iechyd ac economaidd-gymdeithasol annheg ar draws gwahanol aelodau o'r gymdeithas. Yn y DU mae'r pandemig wedi effeithio'n anghymesur ar gymunedau agored i niwed, a chanfu adolygiad Llywodraeth y DU fod cyfraddau uwch o haint a marwolaethau yn dod yn amlwg ar gyfer grwpiau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME)[xx 21].

Adroddwyd hefyd gan Grŵp Cynghori BAME COVID-19 fod menywod (BAME) bron dair gwaith yn fwy tebygol o farw o COVID-19, o gymharu â menywod gwyn[22]. Mae croestoriad statws rhyw, hil a mewnfudo, ynghyd â thrawma eu profiadau blaenorol, yn golygu bod menywod sy'n fewnfudwyr, yn ffoaduriaid a'n geiswyr lloches sydd eisoes yn wynebu rhwystrau i dai, cyflogaeth a gofal iechyd, ymhlith y menywod BAME hynny yr effeithir arnynt fwyaf gan ganlyniadau'r pandemig ac amodau cyfnodau clo sy'n cynyddu eu gwendidau i drais.

Mae menywod sy'n fewnfudwyr sy'n gaeth wrth ynysu gyda'u camdrinwyr yn dioddef o'r anghydraddoldebau strwythurol hyn ac yn wynebu math unigryw o ormes. Mae cyflawnwyr trais yn y cartref yn camfanteisio ar ofn alltudiaeth a chadw trwy fygwth roi gwybod i'r awdurdodau os ydyn nhw'n estyn am gefnogaeth. Mae statws mewnfudo ansicr yn aml yn cael ei ddefnyddio fel offeryn ar gyfer rheolaeth orfodol yn erbyn menywod[23]. Yn yr un modd mae dioddefwyr masnachu mewn pobl a chaethwasiaeth fodern dan fygythiad o gael eu halltudio os ydyn nhw'n adrodd am gamdriniaeth. Mae Refuge, elusen ar gyfer menywod a phlant yn erbyn trais yn y cartref yn nodi "Mae defnyddio ofn dioddefwyr am eu statws mewnfudo i'w rheoli yn dacteg gyffredin a ddefnyddir gan fasnachwyr a chyflawnwyr mathau eraill o drais ar sail rhyw"[24].

Mae menywod sy'n fewnfudwyr mewn sefyllfa arbennig o agored i niwed o ran trais yn y cartref gan eu bod yn destun yr haen ychwanegol o ofn bod adrodd yn creu perygl y bydd eu data yn cael eu rhannu gyda'r awdurdodau gorfodi mewnfudo, ac yn y pen draw alltudiaeth ar eu cyfer hwy a'u plant. Yn ogystal, mae rheol NRPF yn atal dioddefwyr trais yn y cartref sydd â statws mewnfudo ansicr rhag cyrchu llochesau a ariennir yn gyhoeddus neu fudd-daliadau lles. Cydnabuwyd hyn fel rhwystr i gael mynediad at ofal iechyd ac mae wedi arwain at ymrwymiad gan lywodraeth y DU i beidio â rhannu gwybodaeth yn ymwneud â statws mewnfudo, ond mae'r ofn hwn yn dal i fod yn rhwystr i gael gafael ar gymorth.

Gall menywod o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig ddioddef o bwysau pellach oherwydd pryderon diwylliannol a chymunedol; mae llawer o fenywod weithiau'n penderfynu aros yn eu perthnasoedd camdriniol oherwydd ofn allgáu cymdeithasol os ydyn nhw'n gadael eu partneriaid camdriniol a'r ffaith y gallai rhwystrau iaith eu hatal rhag cael gafael ar gymorth. Canfu papur trafod ar Drais Rhyng-Bersonol (IPV) yn Sweden ar fenywod sy'n fewnfudwyr sydd â statws mewnfudo ansicr y gallai menywod brofi ynysu cymdeithasol, diffyg ymwybyddiaeth am wasanaethau, a hiliaeth gan wasanaethau, gan arwain at fwy o drais[25].

Codwyd pryderon gan elusennau menywod, yn ystod y pandemig, bod dioddefwyr trais yn y cartref yn cael eu gwrthod mewn llochesau sydd â lle dim ond am nad ydyn nhw'n siarad Saesneg. Dywedodd Karma Nirvana, o 20 o fenywod na allai'r elusen ddod o hyd i loches iddynt yn ystod y cyfnod clo, cafodd pump eu gwrthod gan chwe lloches ar wahân am beidio â siarad Saesneg, mae'r rhai a wrthodwyd yn cynnwys mam â babi 14 mis oed a oedd yn ffoi rhag trais ar ôl cael ei dal yn gaethwas gan ei chyn-ŵr[26]. Dywedodd yr elusen fod y cyfnod clo wedi gwaethygu'r broblem hon oherwydd y galw cynyddol am fannau mewn llochesau a diffyg cyfieithwyr ar y pryd ar draws y sector cyhoeddus.

Nid oes llawer yn y llenyddiaeth academaidd mewn perthynas ag effaith cwarantîn neu gadw pellter cymdeithasol ar fenywod sy'n fewnfudwyr, ffoaduriaid a cheiswyr lloches, yn enwedig yng Nghymru. Fodd bynnag, mewn adroddiad gan Refugee Women Connect sy'n edrych ar fudo gorfodol, trais rhywiol a thrais ar sail rhyw (GBV) a COVID-19, mae'n nodi tystiolaeth bod rhai mewnfudwyr gorfodol wedi'u dal rhwng aros mewn sefyllfaoedd camdriniol neu gam fanteisiol neu wynebu digartrefedd gan nad oeddent yn gymwys i gael tai cyhoeddus a chefnogaeth. Roedd darparwyr gwasanaethau yn pryderu y byddai effeithiau emosiynol a seicolegol hirdymor trais yn dod i'r amlwg ar ôl yr argyfwng, ynghyd â'r goblygiadau economaidd tymor hwy ar gyfer adnoddau, mynediad a chyflogaeth[27].

xx Defnyddir y gair BAME yn y ddogfen y cyfeirir ati ond nid dyma'r derminoleg a ffefrir gan yr awduron

**Astudiaeth Achos - 2020**

"Ffoniodd menyw [Asiaidd]. Esboniodd ei bod yn dod o deulu Mwslimaidd a'i bod yn edrych yn daer am help. Roedd ei Saesneg yn dda iawn, ond roedd hi'n anodd ei deall oherwydd ei bod hi'n crio. Dywedodd ei bod yn byw yn [rhan o Loegr]. Esboniodd fod ei gŵr ers dwy flynedd yn bygwth ei thaflu allan o'r tŷ yfory. Roedd wedi ei gadael hi ganol yr wythnos yn dilyn cyfres o ffraeau. Esboniodd ei bod wedi erfyn arno i aros a pheidio â'i gadael. Esboniodd ei fod yn dreisgar ar ddechrau eu priodas ond ar ôl iddi fynd i loches gwnaeth ei theulu ymyrryd a siarad ag ef am y trais, daeth y trais i ben ond mae'r cam-drin meddyliol a geiriol wedi parhau. Mae ei theulu wedi dweud wrthi na fyddan nhw'n ei chefnogi i'w adael gan fod priodas am oes - waeth beth oedd yn digwydd. Heddiw mae wedi bod i'r tŷ a dweud wrthi am adael cyn iddo ddychwelyd yfory. Bygythiodd ei fod yn mynd i gysylltu â'u landlord i'w hysbysu nad yw bellach yn talu rhent ar yr eiddo. Mae ofn arni i fyw yn y tŷ gan fod ganddo allwedd. Mae hi wedi siarad â'r heddlu, ond nid ydyn nhw'n helpu gan ddweud nad yw wedi cyflawni trosedd, felly maen nhw'n methu â gwneud unrhyw beth ar hyn o bryd. Gofynnodd hi am gael mynd yn ôl i loches. Mae hi hefyd wedi rhoi cynnig ar linell gymorth [arall] na chynigiodd unrhyw gefnogaeth iddi. Fe wnes i gyrchu [cronfa ddata lloches] a chwilio ledled y wlad am fannau lloches. Mae angen iddi hunangyfeirio - mae hi i ffonio yn ôl os nad ydyn nhw'n gallu ei helpu.

Yn ddiweddarach, galwodd yn ôl a rhoi gwybod imi nad oedd yn gallu cael lloches, a phan archwiliais hyn yn fwy manwl daeth yn amlwg ei bod ar fisa priod ac nad oedd ganddi hawl i arian cyhoeddus. Fe wnes i ei sicrhau fod help ar gael iddi ac roedd yn fater o ddod o hyd i'r gwasanaeth iawn iddi. Nododd chwiliad pellach lochesau a fyddai'n derbyn menywod nad oedd ganddynt hawl i arian cyhoeddus. Roedd hi'n mynd i hunangyfeirio eto.

Dywedodd y byddai'n galw yn ôl eto pe bai'n aflwyddiannus. Diogelwch i barhau'n flaenoriaeth - 999"

Mewn arolwg a gynhaliwyd gan Sisters Not Strangers o 100 o fenywod oedd yn ceisio lloches o Gymru a Lloegr, roedd traean o fenywod mewn perygl uchel o gael coronafeirws, gan nodi cyflwr iechyd difrifol fel asthma, clefyd y galon a diabetes. Roedd mewnfudwyr heb ddogfennau yn bryderus ynghylch ceisio cymorth meddygol ac yn ofni taliadau iechyd neu y byddai staff yn adrodd amdanynt i awdurdodau mewnfudo ac y byddent yn cael eu halltudio. Canfu'r arolwg fod rhai a oroesodd GBV Rhywiol angen triniaeth barhaus ar gyfer anafiadau a chyflyrau cronig ar ôl trais ond fe wnaethant adrodd am rwystrau o ran cael mynediad at wasanaethau arbenigol, gan gynnwys gwasanaethau iechyd atgenhedlu. Roedd hunan-ynysu yn amhosibl i'r 21% o ferched a orfodwyd i gysgu yn yr un ystafell ag aelod nad oedd yn aelod o'r teulu. Yn ogystal, roedd golchi dwylo yn aml yn her ddifrifol i'r 32% o ferched a oedd yn ei chael hi'n anodd fforddio sebon a chynhyrchion hylendid eraill[28]. Aeth tri chwarter y menywod a arolygwyd heb fwyd yn ystod y pandemig, gan gynnwys mamau a oedd yn ei chael hi'n anodd bwydo eu plant. Roedd un rhan o bump o'r menywod a arolygwyd yn ddigartref, yn dibynnu ar drefniadau dros dro gyda chydnabod am gysgod, neu'n cysgu y tu allan neu ar fysiau a nododd 82% o fenywod fod eu hiechyd meddwl "yn waeth o lawer nag o'r blaen" oherwydd ynysiad a chael eu torri i ffwrdd o wasanaethau cymorth[28].

**Astudiaeth Achos 2 - Rhagfyr 2020**

"Cawsom neges llais gan weithiwr Diogelu [lleol] a oedd yn ceisio dod o hyd i lety i fenyw a oedd yn profi trais ar sail anrhydedd ac a oedd mewn perygl o niwed difrifol. Roedd hi wedi ffoi o dŷ ei gŵr ac roedd ar hyn o bryd yn aros gydag ewythr. Roedd bygythiadau yn erbyn ei bywyd yn dod gan berthnasau y tu allan i'r wlad ac roedd pryderon y gallai fod ganddynt gyd-gynllwynwyr yn y wlad a oedd yn chwilio amdani. Hyd yma, roedd ganddi [enghreifftiau o gam-drin/artaith corfforol difrifol]. Nid oedd hi'n siarad Saesneg - roedd yn siarad [iaith Asiaidd] yn unig. Ar hyn o bryd roedd hi gyda heddwas a oedd yn ceisio ei gwneud hi'n ddiogel. Datgelodd y gweithiwr bryderon am iechyd meddwl y fenyw, gan nodi ei bod wedi datgelu ei bod yn well ganddi gyflawni hunanladdiad yn hytrach na dwyn cywilydd a gwarth ar ei theulu. Gwnaethom edrych ar opsiynau yn ardal [rhanbarth Cymru] ac yna dechreuon ni edrych ymhellach i ffwrdd am sefydliadau arbenigol a allai fod â'r ddarpariaeth iaith yr oedd ei hangen arni. Daeth y gweithiwr â'r alwad i ben i drefnu i'r heddwas gysylltu â ni.

Cysylltodd yr heddwas â ni ychydig yn ddiweddarach. Trafodais loches gyda'r heddwas a oedd yn poeni am ei hanfon yn rhy bell o'r ardal gan nad oedd wedi bod y tu allan mewn blynyddoedd, roedd ei sgiliau cymdeithasol a dealltwriaeth yn gyfyngedig ac na fyddai'n gallu cyfathrebu. Gwnaethom drafod ffyrdd o fynd i loches, roedd yr heddwas yn teimlo efallai na fyddai hi'n gallu ymdopi pe bai hi'n cymryd rhan yn Rail to Refuge. Dywedodd yr heddwas ei bod wedi cysylltu â [gwasanaeth VAWDASV arbenigol yng Nghymru] heddiw i ofyn iddi gael ei hasesu ar gyfer eu tŷ diogel mwy lleol a bod y gweithiwr [o'r gwasanaeth arbenigol uchod] wedi gwrthod asesu'r fenyw… Roedd cwestiwn ynghylch hawl y fenyw i arian cyhoeddus. Roedd y swyddog diogelu wedi bod o dan yr argraff bod ganddi hawl gan fod ganddi ganiatâd i aros tan [dyddiad 2021] ond roedd yr heddwas yn ansicr. Soniais am Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 - Adran 35 yn benodol. Dywedodd yr heddwas fod y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi barnu bod y risg yn ymwneud yn fwy â DV ac i ddod aton ni am gefnogaeth yn hytrach na'i darparu eu hunain. Fe wnaethon ni edrych a dywedais y byddwn i'n rhoi cynnig ar [gwasanaeth arbenigol mewn rhan arall o Gymru] a gofyn i'r gweithiwr ar alwad gysylltu i gael trafodaeth. Fe wnes i hefyd gyfeirio at dai yn ôl yr angen a dywedais wrth yr heddwas am ein ffonio ni'n ôl os nad oedd [y gwasanaeth hwnnw] yn gallu helpu.

Cysylltais â [y gwasanaeth] ac egluro'r sefyllfa'n fyr ac nad oeddwn yn siwr a fyddai'n ffit addas ond bod yn rhaid i mi roi cynnig arni. Roedd y gweithiwr yn gyrru ond stopiodd i gymryd manylion ac i ffonio'r fenyw yn ôl. Ychydig yn ddiweddarach, fe wnaeth y gweithiwr ein ffonio i ail-adrodd yr alwad. Ni fyddent yn gallu derbyn y fenyw i loches gan nad oedd ganddi unrhyw sgiliau iaith Saesneg ac ni fyddent yn gallu ei chefnogi'n ddigonol. Roeddent wedi cael achosion blaenorol y llynedd lle roedd rhwystrau iaith wedi effeithio ar eu gwasanaethau ac roedd yn rhaid iddynt ysgrifennu polisi yn nodi bod angen o leiaf ddigon o Saesneg ar fenywod i fynd trwy'r asesiad risg. Hefyd ni allent ei chefnogi oherwydd nad oedd ganddi hawl i arian cyhoeddus. Soniais eto am Ddeddf 2014 ond ni chefais ateb i hyn. Gofynnais a fyddai'r heddwas yn cysylltu eto ac atebodd y gweithiwr fod yr heddwas yn teimlo ei bod wedi gweithredu ei holl opsiynau ar ôl bod gyda'r fenyw am 3 awr. Byddai'n ei dychwelyd i eiddo'r ewythr am y noson ac yn cyflwyno atgyfeiriad diogelu yn y bore. Roedd y gweithiwr wedi awgrymu llochesau yn nes at Lundain gyda darpariaethau iaith ond dywedodd yr heddwas eto ei bod yn anghyffyrddus gyda'r opsiwn hwn."

## Cyllid y Swyddfa Gartref i gefnogi Menywod sy'n Ffoaduriaid yn ystod Covid-19

Mae'r Groes Goch Brydeinig wedi derbyn arian grant 'Cefnogaeth i Fenywod sy'n Ffoaduriaid yn ystod COVID-19' [c £585,000] gan y Swyddfa Gartref. Byddant yn cyflawni eu prosiect 'Grymuso a Chysylltu Digidol' a fydd yn helpu i ddarparu cefnogaeth i fenywod sy'n ffoaduriaid, ledled y DU, i ddiwallu anghenion sy'n gysylltiedig â chyfyngiadau COVID-19 ac adferiad COVID-19. Bwriad yr arian yw helpu i arwain grymuso digidol trwy ddarparu dyfeisiau, data, arweiniad a chymorth technegol yn uniongyrchol i fenywod ledled y DU; cyflwyno adeiladu cydnerthedd a hyfforddiant wedi'i deilwra trwy sesiynau gwaith grŵp ar-lein i ystod o grwpiau menywod sy'n ffoaduriaid a rhai cysylltiedig y Groes Goch; a chreu gwaddol o ddeunyddiau cwrs a ffilm integreiddio ar gyfer mynediad ar-lein i filoedd o fenywod sy'n ffoaduriaid ledled y DU, carfannau ehangach a rhanddeiliaid. Dylai hyn yn ei dro helpu i leihau ynysiad ymysg menywod sy'n ffoaduriaid ac arwain at welliannau mewn llesiant, yn ogystal â chefnogi gwaith y Groes Goch Brydeinig yn erbyn trais ar sail rhyw trwy ledaenu gwybodaeth.

Dyfarnwyd cyllid [c £61,000] i Micro Rainbow i gefnogi menywod sy'n ffoaduriaid ac yn lesbiaidd, deurywiol, trawsrywiol a queer ledled y DU. Mae rhanddeiliaid yn adrodd nad yw'r grŵp hwn o ferched sy'n ffoaduriaid yn aml yn cael ei gefnogi gan naill ai sefydliadau ffoaduriaid prif ffrwd neu rai LHDTI. Bydd y prosiect hwn yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â thlodi digidol trwy ddarparu dyfeisiau, ochr yn ochr â gweithgareddau i wella sgiliau digidol, cyflogadwyedd, a sgiliau cyfweliadau swyddi a sgiliau bywyd.

# Cynnydd yn Erbyn Argymhellion

Derbyniwyd ymatebion ysgrifenedig gan y Swyddfa Gartref, Llywodraeth Cymru a Chymorth i Fenywod Cymru. Nid oedd yr Heddlu ac Awdurdodau Lleol yn gallu cwblhau'r ceisiadau. Crynhoir yr ymatebion isod yn ôl asiantaeth.

## Swyddfa Gartref

| Argymhellion | Adolygiad o gynnydd/Ymateb |
|---|---|
| **Yn ein grwpiau ffocws, disgrifiodd menywod sy'n ceisio lloches eu bod yn 'ofnus' yn eu cyfweliad cychwynnol ac o gael eu cyhuddo o ddweud celwydd. Ni ddylid defnyddio dulliau gwrthwynebus mewn materion mor sensitif â thrais ar sail rhyw. Os bydd trais ar sail rhyw yn codi fel rhan o hawliad am loches, mae angen i'r hawlydd gael cyfweliad wedi'i deilwra mewn amgylchedd sy'n ffafriol i hwyluso datgeliad, wedi'i gynnal gan berson ag arbenigedd mewn trais ar sail rhyw. Dylai menywod allu cael cwmni gweithwyr cymorth hyfforddedig, gwirfoddolwyr neu gymdeithion eraill os ydyn nhw'n dewis hynny.** | Rydym yn gwerthfawrogi y gallai fod yn anodd i hawlwyr ddatgelu gwybodaeth sensitif ac rydym wedi cymryd camau i wneud y broses yn sensitif i ryw.<br><br>Mae cyfweliadau lloches yn rhai nad ydynt yn wrthwynebus a rhaid i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau sicrhau bod yr hawlydd yn teimlo'n gyffyrddus ac yn gallu darparu tystiolaeth i gefnogi ei chais.  Gall menywod sy'n ceisio lloches ofyn am swyddog cyfweld benywaidd a chyfieithydd ar y pryd pe bai hyn yn gwneud iddynt deimlo'n fwy abl i ddatgelu gwybodaeth sensitif.  Gallant hefyd ofyn am ddod â ffrind neu gydymaith gyda nhw i gyfweliad i ddarparu cefnogaeth os oes amgylchiadau eithriadol.<br><br>Nid ydym yn disgwyl i hawlwyr ddatgelu gwybodaeth sensitif o flaen plant ac yn cydnabod pwysigrwydd gofal plant i roi'r lle sydd ei angen ar hawlwyr i ddatgelu gwybodaeth berthnasol. Dylai hawlwyr sy'n cael eu gwahodd i gyfweliad, sydd â phlant ifanc sydd angen gofal plant, ac sy'n methu â gwneud trefniadau gofal amgen, gysylltu â'r Swyddfa Gartref i drafod yr opsiynau sydd ar gael neu a fydd angen aildrefnu'r cyfweliad.<br><br>Os oes anghysondeb rhwng y wybodaeth y mae rhywun yn ei darparu ar wahanol gamau yn y broses loches, byddwn yn gofyn am hyn.  Byddwn yn ystyried yr esboniad y mae'r hawlydd yn ei ddarparu ochr yn ochr ag unrhyw ffactorau sylfaenol eraill gan gynnwys rhyw, teimladau o gywilydd, statws cymdeithasol wrth asesu hygrededd. Ymdrinnir â hyn yn y canllawiau polisi ar Asesu hygrededd a statws ffoadur sydd ar gael ar GOV.UK: https://www.gov.uk/government/publications/considering-asylum-claims-and-assessing-credibility-instruction. |

| | |
|---|---|
| **Dylai'r ddogfen cyfweliad sgrinio cychwynnol gael ei diwygio i ofyn cwestiwn ynghylch artaith (a marciau a chreithiau) ar hyn o bryd. Byddai cwestiwn ynghylch trais ar sail rhyw yn tynnu sylw'r Swyddfa Gartref at y mathau hyn o achosion yn gynnar. Dylid cyfeirio llwybrau perthnasol at gefnogaeth ar sail y dystiolaeth a roddir yn y cyfweliad sgrinio.** | Mae'r holl staff wedi'u hyfforddi mewn diogelu a rhoddir gwybodaeth i'r holl hawlwyr yn y cam sgrinio am eu cais a'r gefnogaeth sydd ar gael i hawlwyr a gall staff gyfeirio at wasanaethau cymorth. Gellir gweld y daflen wybodaeth hon ar GOV.UK yn: https://www.gov.uk/government/publications/information-leaflet-for-asylum-applications |
| **Dylai'r Swyddfa Gartref sicrhau bod menywod yn cael cynnig cyfieithydd ar y pryd benywaidd yn y digwyddiad sgrinio cychwynnol yn ogystal â'r Cyfweliad Lloches.** | Lle bo hynny'n bosibl yn weithredol, dylid gofyn i'r hawlydd cyn i'r cyfweliad sgrinio gychwyn a oes dewis ganddynt a dylid darparu'r dewis hwnnw cyn belled ag y bo modd. Efallai na fydd dewis o'r fath yn cael ei fodloni mewn rhai sefyllfaoedd, gan gynnwys lle nad oes cyfieithydd ar y pryd o ryw benodol ar gael, neu efallai mai dim ond un heddwas sy'n gwasanaethu gorsaf heddlu ac y byddai parhau i gadw er mwyn aros am heddwas o ryw wahanol yn arwain at oedi gormodol wrth lenwi'r holiadur sgrinio. Lle na ellir cwrdd â chais, rhaid nodi hyn yn glir ar y cofnod achos.<br><br>Gofynnir i hawlwyr yn y cyfweliad sgrinio a hoffent gael cyfwelydd gwrywaidd neu fenywaidd ar gyfer y cyfweliad lloches ac eto yn y llythyr o wahoddiad i gyfweliad lloches a gallant hefyd ofyn am hyn yn nes ymlaen. Os na ellir cwrdd â'r gofyniad hwn ar y diwrnod a drefnwyd, dylid aildrefnu'r cyfweliad fel rheol. |
| **Dylid cynnig darparu cyfwelydd o'r un rhyw yn arferol yn hytrach nag fel cais arbennig. Ni ddylai hwn fod yn berson sydd wedi gweithio yn rhywle arall mewn perthynas â'r un achos. Dylai'r cyfieithydd ar y pryd gael ei wirio yn iawn ac yn ddarostyngedig i god ymddygiad proffesiynol.** | Cynigir darparu cyfwelwyr a chyfieithwyr ar y pryd o'r un rhyw yn arferol ac mae cyfieithwyr ar y pryd yn ddarostyngedig i wirio a Chod Ymddygiad proffesiynol (CoC). Mae'r CoC cyfieithwyr ar y pryd ar gael ar GOV.UK yn https://www.gov.uk/government/publications/code-of-conduct-interpreters-working-for-uk-visas-and-immigration<br><br>Ni ddylid atal darparu cyfwelydd o'r rhyw arall ar sail rhyw'r hawlydd lloches yn unig. |
| **Ni ddylai fod yn ofynnol i bobl nad ydynt yn siarad Saesneg fel iaith gyntaf lofnodi'r Cofnod Cyfweliad, o ystyried efallai nad ydynt yn deall cynnwys y ddogfen a goblygiadau ei llofnodi; gellir defnyddio cofnodion cyfweliad sgrinio anghywir yn ddiweddarach i danseilio honiadau menywod os yw datganiadau'n ymddangos yn groes.** | Darperir cyfieithwyr ar y pryd ar gost cyhoeddus at ddibenion caniatáu i hawlwyr lloches gyflwyno eu hachos, lle bynnag y bo angen. Dewisir cyfieithydd ar y pryd a all sicrhau cyfathrebu priodol rhwng yr hawlydd a'r cyfwelydd. (Mae'r gofyniad hwn wedi'i nodi yn Rheol Mewnfudo 339ND).<br><br>Gofynnir i hawlwyr lofnodi'r adran gydnabod ar y copi gwreiddiol o gofnod y cyfweliad, neu yn achos cyfweliadau cynhadledd fideo, y profforma cydnabod, i gadarnhau eu bod wedi'i dderbyn. Nid yw hyn er mwyn cytuno ar gywirdeb y cynnwys. Caiff cyfweliadau eu recordio hefyd ac mae'n agored i hawlwyr gyflwyno tystiolaeth bellach yn dilyn y cyfweliad. |

| | |
|---|---|
| **Dylai'r Swyddfa Gartref adolygu'r canllawiau a'r hyfforddiant ar gynnal y Cyfweliad Lloches gan ganolbwyntio ar sut mae goroeswyr artaith a thrais rhywiol yn cael eu galluogi i roi cyfrif priodol o'u profiadau, gan sicrhau cydraddoldeb â dioddefwyr trais sy'n mynd trwy'r System Cyfiawnder Troseddol.** | Rydym wedi ymrwymo i ddarparu proses loches sy'n sensitif i ryw ac rydym wedi ymrwymo i drin menywod sy'n ceisio lloches gydag urddas a pharch. Mae pob un sy'n gwneud penderfyniadau yn derbyn hyfforddiant gorfodol ar reoli achosion yn sensitif a rhaid iddynt ddilyn canllawiau polisi cyhoeddedig y Swyddfa Gartref, gan gynnwys canllawiau penodol ar faterion rhyw, sy'n ymdrin â mathau penodol o erledigaeth ar sail rhyw ac sydd ar gael ar GOV.UK: https://www.gov.uk/government/publications/gender-issue-in-the-asylum-claim-process.<br><br>Mae'r canllaw polisi ar Gyfweliadau Lloches hefyd yn ymdrin â chyfweliadau â dioddefwyr artaith neu drawma: https://www.gov.uk/government/publications/conducting-the-asylum-interview-process<br><br>Mae gennym strategaeth sicrhau ansawdd gadarn ar waith i sicrhau bod gweithwyr achos lloches yn cwrdd â'r safon a ddisgwylir ganddynt, ac i sicrhau cydymffurfiad â'r polisi cyhoeddedig.<br><br>Rydym wedi gweithio'n agos gyda phartneriaid ar ystod o fentrau, gan gynnwys y rhai sy'n cael eu hadlewyrchu yn ein canllaw polisi lloches. Rydym yn parhau i weithio gyda phartneriaid allanol i ddatblygu ac adolygu ein canllawiau a'n hyfforddiant.<br><br>Rydym yn hyfforddi ein gwneuthurwyr penderfyniadau i'w galluogi i gyfweld pobl sy'n agored i niwed yn effeithiol ac ystyried effaith trawma a cholli cof.<br><br>Mae'r model a argymhellir ar gyfer cyfweld yn seiliedig ar fodel o'r enw'r Dull Cyfathrebu Deialogaidd (DCM), sy'n seiliedig ar arfer gorau ar gyfer cyfweld ymchwiliol. Mae gan y model chwe cham sy'n rhoi cyfle i'r cyfwelai ddarparu ac egluro ei dystiolaeth lafar a hefyd yn rhoi cyfle i'r swyddog cyfweld brofi'r dystiolaeth. Fe'i cynlluniwyd i brocio'r cof a galluogi'r unigolyn agored i niwed i gofio ei dystiolaeth mor gywir â phosibl.<br><br>Rydym hefyd yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â materion rhyw-benodol fel effaith normau diwylliannol a ffactorau sylfaenol eraill ar allu'r cyfwelai i ddarparu ei gyfrif. Yn ogystal, mae hyfforddeion yn cael eu haddysgu'n fwy penodol am sut y gallant ddelio ag Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod a mathau eraill o Drais ar sail Rhyw yn sensitif yn y cyfweliad lloches. |

| | |
|---|---|
| **Ni ddylai cyfwelydd y Swyddfa Gartref fod yn gwneud/teipio nodiadau gair am air yn ystod y cyfweliad, sy'n golygu y gall rhai cyfweliadau gymryd sawl awr. Yn hytrach, dylid gwneud recordiad fideo neu sain o'r cyfweliad, gyda'r Cyfwelydd yn gwneud nodiadau 'sbarduno' yn lle cofnod gair am air. Dylent fod yn rhydd i ymgysylltu â'r ymgeisydd, meithrin perthynas, a gallu canolbwyntio'r cyfweliad ar y pedwar maes canlynol:**<br>• **A oes rheswm da o ran ofn/ confensiwn dros yr hawliad?**<br>• **A oes digon o ddiogelwch yn y wladwriaeth gartref?**<br>• **A oes opsiwn adleoli diogel?**<br>• **A yw'r ymgeisydd mewn perygl ar ôl dychwelyd?** | Mae'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn derbyn hyfforddiant helaeth ar ystyried ceisiadau am loches, sy'n cynnwys hyfforddiant a mentora ar gynnal cyfweliadau.<br><br>Mae'r hyfforddiant yn cynnwys ffocws ar sut i sefydlu a chynnal perthynas â'r cyfwelai. Addysgir hyfforddeion y dylai pob cyfweliad ystyried sut y gall amgylchiadau unigol y cyfwelai (cefndir, addysg ac ati) effeithio ar y berthynas, y gwahaniaeth yn y ddeinameg pŵer ac effaith amgylchedd y cyfweliad (megis nodi cyfrif gair am air/ cyfathrebu trwy gyfieithydd ar y pryd) a sut y gellir lliniaru'r rhain. Mae hyfforddeion hefyd yn cael cyfle i gynnal cyfweliadau lloches ymarfer mewn amgylchedd hyfforddi a rhoddir adborth iddynt ynghylch a gynhaliwyd eu cyfweliad yn briodol.<br><br>Darperir trawsgrifiad gair am air cyn gynted â phosibl ar ôl y cyfweliad fel bod cofnod ysgrifenedig. Cofnodir cyfweliadau hefyd gan fod hyn yn cynyddu tryloywder, yn gwella ansawdd y cyfweliad ac yn galluogi gwirio unrhyw faterion a godir ar ôl y cyfweliad. Mae hyn wedi'i nodi ym Mharagraff 339NE o'r Rheolau Mewnfudo ac mae'n berthnasol i bob cyfweliad a gynhelir ar neu ar ôl 24 Tachwedd 2016.<br><br>Mae'r canllaw cyfweliadau lloches yn cael ei adolygu'n barhaus ac mae ar hyn o bryd yn y broses o gael ei ddiweddaru mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid allanol i ddarparu cyngor wedi'i ddiweddaru ar ymchwilio i faterion allweddol trwy gwestiynu â ffocws, proffesiynol a sensitif. Credwn fod hyn yn arbennig o berthnasol oherwydd gall rhywfaint o dystiolaeth fod yn gymhleth ac emosiynol iawn, gan ymwneud er enghraifft ag achosion o erledigaeth neu niwed difrifol. Mae tystiolaeth o'r fath yn hanfodol i sicrhau bod hawliadau lloches yn cael eu hystyried yn briodol, fel bod amddiffyniad yn cael ei roi i'r rhai sydd wir ei angen a'i wrthod i'r rhai nad ydynt ei angen.<br><br>Ar ôl ei ddiweddaru, bydd y canllawiau cyfweliad lloches yn disodli'r fersiwn gyfredol sydd ar gael ar GOV.UK yn: https://www.gov.uk/government/publications/conducting-the-asylum-interview-process. |
| **Ar gyfer menywod sy'n destun masnachu pobl, dylid cynnal y Cyfweliad Masnachu Pobl ar wahân i'r Cyfweliad Lloches.** | Yn aml gall gorfod adrodd profiadau sawl gwaith fod yn sbardun ar gyfer aildrawmateiddio. Nid yw'n ofynnol i'r Awdurdod Cymwys Sengl (SCA) gyfweld â dioddefwr posib ac yn y rhan fwyaf o achosion NRM ni fydd angen cyfweliad. Mae Modern Slavery: Statutory Guidance for England and Wales, sydd ar gael ar GOV. UK. yn https://www.gov.uk/government/publications/modern-slavery-how-to-identify-and-support-victims yn manylu ar y darpariaethau perthnasol yn adrannau 14.94 - 105.<br><br>Yn benodol, 14.99: Rhaid i'r SCA ystyried a fyddai'n fwy priodol cyflwyno cwestiynau yn ysgrifenedig neu trwy'r darparwr cymorth, yr heddlu neu'r awdurdod lleol (yn achos plant ac Oedolion mewn Perygl), neu weithiwr proffesiynol arall sy'n ymwneud â'u cefnogaeth. Dylai'r SCA hefyd ystyried a fyddai'n fwy priodol cyflwyno cwestiynau i gorff arall i'w gofyn yn ystod cyfweliad gwahanol, er enghraifft, yn ystod cyfweliad lloches neu heddlu. Dylid gwneud y penderfyniad gan ystyried amgylchiadau'r dioddefwr. |

| | |
|---|---|
| **Ar hyn o bryd, dim ond pum diwrnod sydd gan hawlwyr i gyflwyno sylwadau i'r Swyddfa Gartref ar ôl eu cyfweliad. Mae hyn yn annigonol, a dylid ei ymestyn i ddeg diwrnod.** | Nid oes unrhyw gyfnod penodol ar gyfer cyflwyno sylwadau dilynol ac mae unrhyw gasgliad bod pum diwrnod ar gael yn anwir ac yn ddi-fudd. Rhoddir amser rhesymol i hawlwyr fesul achos i ddarparu tystiolaeth ychwanegol yn dilyn y cyfweliad lloches. |
| **Mae angen i'r Swyddfa Gartref (a rhanddeiliaid cyfreithiol a barnwrol hefyd) ystyried sut mae eu staff yn cael eu hyfforddi a'u cefnogi ar faterion rhyw a galluogi mewnbwn gan asiantaethau arbenigol lleol ar hyfforddiant ar faterion trais yn erbyn menywod. Dylent hefyd sicrhau bod y strwythurau a'r prosesau cywir ar waith yn y Swyddfa Gartref i wrthweithio 'llosgi allan'/'ymddieithriad' proffesiynol rhag trais rhywiol a naratifau trawmatig eraill.** | Ni all y Swyddfa Gartref wneud sylwadau o ran rhanddeiliaid cyfreithiol a barnwrol gan y byddai hynny i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder.<br><br>Mae'r Swyddfa Gartref yn parhau i weithio gyda phartneriaid allanol i ddatblygu ac adolygu ein canllawiau a'n hyfforddiant. Mae'r Swyddfa Gartref yn darparu cefnogaeth i staff a hyfforddiant gan gynnwys trawma eilaidd.<br><br>Y cwrs 'Ffactorau Seicolegol sy'n effeithio ar y rhai sy'n gwneud penderfyniadau' a ddatblygwyd ochr yn ochr â rhanddeiliaid allanol sydd ag arbenigedd yn y maes hwn. Ymdrinnir â hyn hefyd yn y Cyfweliad Lloches a Hyfforddiant Diogelu Ymwybyddiaeth. Yn ddiweddar rydym hefyd wedi cyflwyno Diwrnod Myfyrio fel rhan or 'Asesu tystiolaeth: Cwrs hyfforddi Adroddiadau Cyfreithiol Medico sy'n cynnwys sesiwn trawma dirprwyol, a gyflwynir gan un o'r meddygon o Freedom from Torture/Helen Bamber Foundation. |
| **Byddai datblygu paneli lleol o arbenigwyr a all ddarparu datganiadau arbenigol mewn achosion trais ar sail rhyw, gan gynnwys arbenigedd seiciatryddol, seicolegol, meddygol a diwylliannol, ac sy'n gallu cynhyrchu adroddiadau 'Cydymffurfio ag Istanbul' yn cyflymu'r broses ac yn arwain at ddealltwriaeth fwy cywir o sefyllfaoedd menywod. Ar hyn o bryd, mae'n rhaid i fenywod yng Nghymru sy'n cael eu hatgyfeirio at y Medical Foundation for Victims of Torture neu'r Helen Bamber Foundation deithio i Lundain sy'n golygu oedi yn y broses.** | Gellir darparu tystiolaeth feddygol gan sefydliadau heblaw'r Ymddiriedolaethau. Rhoddir pwys priodol ar dystiolaeth feddygol gan ystyried a yw wedi'i chwblhau yn unol â fframweithiau a safonau cydnabyddedig. |

| | |
|---|---|
| **O ystyried y lefelau uchel o apeliadau llwyddiannus yn hawliadau menywod am loches, mae angen craffu ar y broses benderfynu a chynnal adolygiad o'r rhesymau penodol dros wrthod.** | Mae'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn ystyried anghenion amddiffyn yn ofalus ym mhob achos ar sail yr holl dystiolaeth sydd ar gael pan wneir y penderfyniad. Mae yna sawl rheswm pam y gellir gwrthdroi penderfyniad mewn apêl, gan gynnwys cyflwyno tystiolaeth newydd nad oedd ar gael i'r sawl sy'n gwneud y penderfyniad, felly nid yw o reidrwydd yn golygu bod y penderfyniad gwreiddiol yn anghywir.<br><br>Mae angen i hawlwyr lloches ddatgelu'r holl dystiolaeth berthnasol i gefnogi eu cais cyn gynted â phosibl fel y gallwn ystyried eu hachos yn iawn. Ein nod yw lleihau'r gyfradd apelio a ganiateir trwy ddadansoddi'r rhesymau pam y caniateir apeliadau a defnyddio hyn i wella arweiniad a hyfforddiant.<br><br>Rydym yn parhau i weithio gyda phartneriaid ar welliant parhaus ac yn nodi bod y gyfradd apelio a ganiateir wedi bod tua'r un faint ar gyfer menywod a dynion yn ystod y blynyddoedd diwethaf.<br><br>Mae gennym strategaeth sicrhau ansawdd gadarn ar waith i sicrhau bod gweithwyr achos lloches yn cwrdd â'r safon a ddisgwylir ganddynt, ac i sicrhau cydymffurfiad â'r polisi cyhoeddedig. Mae cyfweliadau a phenderfyniadau lloches yn destun gwiriadau ansawdd mewnol ac archwilio allanol. |

## Llywodraeth Cymru

| Argymhellion | Adolygiad o Gynnydd/Ymateb |
|---|---|
